# Swyddfa Cymru

## Adroddiad Blynyddol

## 2010-11

TSO
information & publishing solutions

Cyhoeddwyd gan TSO (The Stationery Office) ac ar gael o:

**Arlein**
**www.tsoshop.co.uk**

**Post, Teleffon, Ffacs ac e-bost**
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion teleffon/Ymholiadau cyffredinol: 0870 600 5522
Archebion drwy Linell wybodaeth galwad isle Parliamentary: 0845 7 023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bostiwch: customer.services@tso.co.uk
Ffon Destun: 0870 240 3701

**The Parliamentary Bookshop**
12 Bridge Street, Parliament Square,
London SW1A 2JX
Archebion teleffon/Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bostiwch: bookshop@parliament.uk
Y we: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO@Blackwell ac Asiantwyr Archrededig eraill**

**Hefyd, gall gwsmeriaid archebu ffurflen cyhoeddiadau gan:**
TSO Ireland
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
Archebion teleffon/Ymholiadau cyffredinol: 028 9023 8451
Archebion ffacs: 028 9023 5401

ISBN 978-0-10-181072-2

9 780101 810722

# Swyddfa Cymru
# Adroddiad Blynyddol 2010-11

a Gyflwynwyd i'r Senedd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorffennaf 2011

Cm8107 £20.50

**© Hawlfraint y Goron 2011**
Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu e-bostio: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn Swyddfa Cymru, Tŷ Discovery, Harbwr Scott, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 4HA neu wales.office@walesoffice.gsi.gov.uk.

Mae modd llwytho'r cyhoeddiad hwn oddi ar y we yn www.official-documents.gov.uk. Mae'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan hefyd yn walesofffice.gov.uk

ISBN: 9780101810722

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited
ar ran Trefnydd Llyfrfa Ei Mawrhydi
ID 2437662 07/11

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

# Rhagair gan y Gweinidog

Hwn yw fy adroddiad blynyddol cyntaf i'r Senedd fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru. A minnau wedi fy ngeni a'm magu yng Nghymru, roedd yn anrhydedd cael fy mhenodi'n Ysgrifennydd Cymru gan y Prif Weinidog ym mis Mai 2010 ac i fod y fenyw gyntaf yn y swydd honno.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Swyddfa Cymru wedi wynebu sawl her, yn enwedig gan fod dwy lywodraeth glymblaid wahanol wedi bod yn gyfrifol am lywodraethu Cymru. Golygai hyn fod ein hymdrechion i hyrwyddo cydgysylltiad a chydweithrediad effeithiol rhwng y ddwy lywodraeth yn bwysicach nag erioed. Nid oedd bosib i Gymru gael ei heithrio ychwaith rhag y penderfyniadau anodd y gorfodwyd Llywodraeth y DU i'w gwneud er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg ariannol a sicrhau cydbwysedd unwaith eto yn yr economi.

Ers i mi gael fy mhenodi'n Ysgrifennydd Gwladol, rwyf wedi bod yn benderfynol o ddefnyddio synnwyr cyffredin wrth fy ngwaith, gan sicrhau'r fargen decaf i Gymru, a datblygu perthynas fusnes adeiladol gyda Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Prif Weinidog a'i weinyddiaeth newydd yn dilyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai er mwyn sicrhau twf economaidd, buddsoddiad, a chyfleoedd i bawb yng Nghymru gan barchu a chynnal y setliad datganoli ar yr un pryd.

Rwyf yn ymroddedig i gefnogi gweinidogion y Cynulliad yn y meysydd hynny sydd wedi'u datganoli, a gobeithiaf hefyd y byddant hwythau'n cefnogi Llywodraeth y DU ynghylch materion a gadwyd yn ôl.

Dylem weld yr Agenda Parch hon fel proses ddwyffordd, nid fel stryd unffordd. A dylem ei defnyddio i ddatblygu perthynas gadarnhaol a chadarn gan weithio at gydweithredu a buddsoddi yn y dyfodol. Fel Llywodraeth cawsom ddechrau cadarnhaol a chynnar pan ddaeth David Cameron yn un o'r Prif Weinidogion cyntaf i ymweld â'r Senedd - ac o fewn wythnos i ddechrau yn y swydd.

Ers hynny, mae'r Llywodraeth Glymblaid, ei Gweinidogion a Swyddfa Cymru wedi ceisio gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru er budd Cymru a'r Deyrnas Unedig, er gwaethaf y sefyllfa economaidd galed yr ydym wedi'i hetifeddu.

Fel Llywodraeth, rydym yn ymroddedig i ddatganoli. Fel Ysgrifennydd Cymru, sicrhau'r Refferendwm ar ragor o bwerau i'r Cynulliad oedd un o fy mhrif flaenoriaethau wrth ddechrau yn y swydd. Ym mis Mawrth, pleidleisiodd pobl Cymru o blaid rhoi pwerau deddfu sylfaenol i'r Cynulliad mewn meysydd datganoledig. Byddant yn gwneud y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn gwbl gyfrifol ac atebol am y penderfyniadau a wnânt a'r arian y byddant yn ei wario ar feysydd datganoledig. Bydd hyn, fel y mae eraill wedi awgrymu, yn creu 'diwylliant dim esgusodion' ar gyfer y Cynulliad a gweinidogion Cymru.

Dim ond blwyddyn sydd ers cychwyn y Llywodraeth Glymblaid. Rydym yn canolbwyntio, yn gwbl briodol, ar yr hyn y gallwn ei gyflawni dros bum mlynedd er mwyn sicrhau sefydlogrwydd economaidd ac ariannol ar gyfer yr hirdymor. Ond rwyf yn credu ein bod eisoes wedi gwneud llawer i roi'r wlad hon yn ôl ar y trywydd cywir.

Mae'r arwyddion yn awgrymu ein bod yn symud i'r cyfeiriad cywir. Rydym wedi gosod cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer adeiladu cymdeithas decach, fwy cyfrifol, sy'n cefnogi'r rheini sydd ei angen fwyaf. Rydym wedi gwneud penderfyniadau anodd ond angenrheidiol ynghylch yr economi er mwyn delio â'r llanast a etifeddwyd gan y Llywodraeth flaenorol.

Yng Nghymru, rydym yn buddsoddi mewn seilwaith megis trydaneiddio rheilffyrdd a band eang cyflym iawn, a bydd camau i symleiddio system dreth gymhleth y DU a lleihau baich rheoliadau yn cefnogi busnesau a mentrau yng Nghymru. Wrth ddiwygio'r wladwriaeth les, bydd hyn yn targedu cefnogaeth i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed a helpu'r rheini sy'n gallu gweithio i fynd yn ôl i weithio mewn swyddi neu i gael hyfforddiant. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng Nghymru lle gwelir o hyd, gwaetha'r modd, ardaloedd o ddiweithdra uchel a phobl heb waith, er gwaethaf ymdrechion llywodraethau, un ar ôl y llall.

Ym mis Rhagfyr, cadeiriais gyfarfod cyntaf Grwp Cynghori ar Fusnes Swyddfa Cymru yn Llundain. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o bob rhan o'r sbectrwm busnes yng Nghymru i rannu eu barn sy'n cyfrannu at Grwp Cynghori ar Fusnes y DU a gadeirir gan y Prif Weinidog. Mae'r Grwp yn cyfarfod bob chwarter erbyn hyn i drafod unrhyw faterion sy'n effeithio ar Gymru.

Mae Swyddfa Cymru yn ymroddedig i arbedion effeithlonrwydd, ac wrth wneud hynny lleihau costau i'r Llywodraeth. Aethom ati i arwain drwy esiampl, gan ei gwneud yn ofynnol i bob gweinidog a staff deithio dosbarth safonol ar drên yn hytrach na dosbarth cyntaf. Aethom ati hefyd i nodi a gweithredu arbedion mewn meysydd eraill.

Wrth i ni gychwyn ail flwyddyn y Llywodraeth Glymblaid, rwyf yn hyderus bod sefyllfa economaidd Cymru yn fwy cadarn - er ni allwn laesu dwylo o gwbl ynghylch yr heriau lu sydd o'n blaenau. Mae Swyddfa Cymru yn ailgyfeirio ei gweithredu er mwyn adlewyrchu ei rôl yn well wrth gynrychioli Cymru yn San Steffan a chynrychioli San Steffan yng Nghymru.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth newydd Cymru yn dilyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai. Drwy gydweithio er budd cenedlaethol, gallwn gyflawni'r gorau i Gymru.

**Y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS**
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

# Cynnwys


Rhagair gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**1. Datganoli a Swyddfa Cymru**

| | | |
|---|---|---|
| 1.1 | Y Setliad Datganoli | 1 |
| 1.2 | Ein rôl | 2 |
| 1.3 | Prif Lwyddiannau 2010-11 | 3 |
| 1.4 | Llywodraeth Atebol a Thryloyw | 4 |
| 1.5 | Lleihau'r diffyg – chwarae ein rhan | 5 |

**2. Cyflawni dros Gymru dan y Setliad Datganoli**

| | | |
|---|---|---|
| 2.1 | Rhoi ei Llais i Gymru – Cyflawni'r Refferendwm | 6 |
| 2.2 | Deddfu Gyda'n Gilydd dros Gymru | 6 |
| 2.3 | Cynrychioli Cymru yn y Senedd | 9 |

**3. Cymru wrth wraidd Llywodraeth**

| | | |
|---|---|---|
| 3.1 | Cynrychioli buddiannau Cymru | 11 |
| 3.2 | Gweithio gyda Datganoli | 11 |
| 3.3 | Gweithio gyda'n Gilydd dros Gymru | 12 |
| 3.4 | Parchu'r Iaith Gymraeg | 13 |

**4. Llais y Llywodraeth yng Nghymru**

| | | |
|---|---|---|
| 4.1 | Cyfleu ein Gweledigaeth | 14 |
| 4.2 | Cynnwys Cymru | 15 |
| 4.3 | Gweithio gyda Rhanddeiliaid | 17 |

**5. Cyflwyno Cymru i'r byd**

| | | |
|---|---|---|
| 5.1 | Cymru fel Man Gwaith | 19 |
| 5.2 | Cymru fel Man i Fwynhau | 19 |
| 5.3 | Gorau Cymru | 20 |

**6. Effeithlon, Effeithiol a Theg**

| | | |
|---|---|---|
| 6.1 | Gwasanaethau a ddarperir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder | 21 |
| 6.2 | Llywodraeth Effeithlon ac Effeithiol | 22 |
| 6.3 | Ein swyddfa | 24 |
| 6.4 | Ein staff | 25 |
| 6.5 | Ariannu a Chyllid | 27 |

**Atodiadau**

| | | |
|---|---|---|
| A. | Rhestr o gyfarfodydd ac ymweliadau Gweinidogion fesul mis | 29 |
| B. | Tablau Ariannol | 34 |

# 1 Datganoli a Swyddfa Cymru

## 1.1 Y Setliad Datganoli

Prif swyddogaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru yw helpu i sicrhau bod y setliad datganoli'n gweithio'n ddidrafferth a bod yn warcheidwad iddo, gan hyrwyddo'r bartneriaeth rhwng y Llywodraeth glymblaid a Llywodraeth Cymru.

Deddf Llywodraeth Cymru 1998 sy'n disgrifio'r setliad datganoli cychwynnol, gan sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999 yn dilyn y bleidlais o blaid datganoli yn 1997. Dan Ddeddf 1998, cafodd llawer o bwerau blaenorol Ysgrifennydd Gwladol Cymru eu trosglwyddo i'r Cynulliad newydd.

Diwygiodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (DLlC 2006) y broses ddatganoli. Roedd ynddi ddwy elfen allweddol: gwahanu Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ffurfiol er mwyn gwella'r drefn lywodraethu ddatganoledig; a phrosesu ar gyfer sicrhau rhagor o bwerau deddfu i'r Cynulliad. Yn y Ddeddf hefyd roedd darpariaeth ar gyfer gallu cynnal refferendwm ar ragor o bwerau deddfu i'r Cynulliad

Bu setliad datganoli Cymru yn un deinamig, a oedd yn gofyn am ddatblygiad cyfatebol yn rôl a chyfrifoldebau Swyddfa Cymru. Mae cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf wrth i'r Cynulliad ennill pwerau mewn meysydd penodol.

Ar 9 Chwefror 2010, pleidleisiodd Aelodau'r Cynulliad yn unfrydol dros refferendwm ar ragor o bwerau deddfu. Roedd y Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno'r refferendwm a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2011. Yn dilyn y canlyniad cadarnhaol, mae'r Cynulliad wedi cymeradwyo gorchymyn a ddaeth â'r pwerau newydd i rym ar 5 Mai 2011. Mae hyn yn golygu y bydd y Cynulliad yn gallu gwneud deddfau yn yr holl feysydd sy'n dod o dan y setliad datganoli gwreiddiol.

Mae cymhwysedd deddfwriaethol ehangach y Cynulliad yn cael ei nodi yn Rhan 4 ac Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a elwir gyda'i gilydd yn Ddarpariaethau Deddfau'r Cynulliad. Mae'r darpariaethau hyn yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu yng nghyswllt y pynciau a restrir o dan yr ugain pennawd yn Atodlen 7, yn ddarostyngedig i'r eithriadau a'r cyfyngiadau yn yr Atodlen honno ac yn adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Trefnir y pynciau yn Atodlen 7 yn ôl ugain pennawd cyffredinol, sy'n cwmpasu’r meysydd lle mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn arfer swyddogaethau gweithredol ar hyn o bryd. Mae’r ugain pennawd yn cynnwys darparu gwasanaethau lleol - addysg a hyfforddiant, gwasanaethau tân ac achub, gwasanaethau iechyd, priffyrdd a thrafnidiaeth, tai, llywodraeth leol, lles cymdeithasol, cynllunio (heblaw gwasanaethau seilwaith ynni mawr) a chyflenwadau dŵr – amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth, diwylliant gan gynnwys yr iaith Gymraeg a henebion, datblygu economaidd a'r amgylchedd.

## 1.2 Ein rôl

Mae Swyddfa Cymru yn cefnogi Ysgrifennydd Gwladol Cymru i hyrwyddo buddiannau gorau Cymru yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn siarad dros Gymru yn y Llywodraeth glymblaid a thros y Llywodraeth glymblaid yng Nghymru. Rôl hwyluso a chydgysylltu sydd gennym yn bennaf, yn arbennig rhwng y Llywodraeth glymblaid a Llywodraeth Cymru.

Wynebodd Swyddfa Cymru nifer o heriau yn 2010-2011. Roedd dwy glymblaid wahanol mewn grym yn y DU a Chymru, a hynny’n golygu bod ein hymdrechion i hyrwyddo cydweithio a chydgysylltu effeithiol yn bwysicach nag erioed.

***Ein Gweinidogion***




Penodwyd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS ar 12 Mai 2010

Penodwyd Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru, David Jones AS, ar 14 Mai 2010

***Y tîm Gweinidogol ehangach***

Fel rhan o'r tîm Gweinidogol ehangach, yr Adfocad Cyffredinol, yr Arglwydd Wallace o Tankerness yw Llefarydd Swyddfa Cymru yn Nhŷ'r Arglwyddi, lle bydd yn ymateb i Gwestiynau Seneddol a dadleuon ar faterion Cymreig ar ran y Llywodraeth. Mae ganddo rôl weithredol yn cynrychioli buddiannau Swyddfa Cymru yn Nhŷ’r Arglwyddi ac yn ein cyfarfodydd cynllunio a strategaeth wythnosol.

Glyn Davies AS yw Ysgrifennydd Seneddol Preifat yr Ysgrifennydd Gwladol ac mae'n cefnogi Gweinidogion Swyddfa Cymru wrth iddynt gyflawni'u dyletswyddau Seneddol ac yn darparu cyswllt rhwng Gweinidogion ac Aelodau'r glymblaid ar y meinciau cefn o Gymru.

Brooks Newmark AS yw Chwip y Llywodraeth a'r Arglwydd Shutt o Greetland yw Chwip Tŷ'r Arglwyddi a chanddo'r cyfrifoldeb dros Faterion Cymreig. Tan Hydref 2010, Chwip Tŷ'r Arglwyddi oedd y Farwnes Northover.

***Gwaith ein Gweinidogion***

Yr Ysgrifennydd Gwladol sydd â'r cyfrifoldeb Gweinidogol cyffredinol dros weithrediad Swyddfa Cymru ac mae'n cynrychioli buddiannau Cymru yn y Cabinet. Mae'n gyfrifol am gynnal cysylltiadau gweithio agos â Gweinidogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gwarchod lle Cymru fel rhan o'r Undeb; cynrychioli'r Llywodraeth glymblaid yng nghyswllt amrywiaeth eang o fuddiannau yng Nghymru; a sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu deall a'u cynrychioli'n briodol yn Whitehall. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn annerch Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth glymblaid.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Is-ysgrifennydd Seneddol rhyngddynt yn mynychu cyfarfodydd prif Bwyllgorau'r Cabinet, yn fwyaf nodedig y Pwyllgor Materion Cartref a'r Pwyllgor Deddfwriaeth a Busnes Seneddol, Is-bwyllgorau a Gweithgorau.

Mae'r Gweinidogion wedi bod yn gysylltiedig â rhaglen sylweddol o waith Seneddol yn ystod y flwyddyn. Rhwng Mai 2010 a Mawrth 2011, rydym wedi ateb chwe sesiwn o Gwestiynau Cymreig, wedi cynnal pedwar Uwch-bwyllgor Cymreig, wedi ymateb i dair dadl yn Neuadd San Steffan, wedi rhoi tystiolaeth ddwywaith i'r Pwyllgor Materion Cymreig, wedi ymateb i un ddadl Ohirio ac wedi cynnal nifer o sesiynau briffio gydag ASau ac Arglwyddi ar faterion yn amrywio o'r Bil Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau i Bwerau Fframwaith yn y Mesur Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol.

Mae'r ddau Weinidog hefyd wedi ymgymryd â rhaglen brysur o gyfarfodydd ac ymweliadau ag ystod eang o gyrff yng Nghymru. Cyfeirir at enghreifftiau ym mhob rhan o'r adroddiad hwn.

## 1.3 Prif Lwyddiannau 2010-2011

Bu ein prif ffocws yn ystod y flwyddyn ar helpu i gyflawni Rhaglen Lywodraethu'r Llywodraeth Glymblaid, ac yn benodol yr ymrwymiadau hynny a oedd yn ymwneud yn benodol â Chymru, sef cyflwyno refferendwm ar ragor o ddatganoli i Gymru ac i fwrw ymlaen â'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy (GCD).

Cyflawnwyd yr ymrwymiad i gyflwyno refferendwm ar ragor o bwerau deddfu i'r Cynulliad pan gynhaliwyd y refferendwm ar 3 Mawrth 2011. Roedd yn cyd-fynd ag amserlen ymrwymiad 'Cymru'n Un' Llywodraeth Cymru, gan ddangos yr agenda parch ar waith.

Gwnaethpwyd y GCD Tai a Llywodraeth Leol ar 21 Gorffennaf 2010, ryw dair blynedd ar ôl iddo gael ei gynnig gyntaf, ac unwaith eto roedd hyn yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth glymblaid i'w hagenda parch. Roedd y cymhwysedd a gafwyd gan y GCD yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar amrywiaeth eang o faterion tai, gan gynnwys tai cymdeithasol a digartrefedd.

Ochr yn ochr â chyflawni ein hymrwymiadau dan y Rhaglen Lywodraethu, mae'r Adran wedi cynrychioli buddiannau Cymru ar nifer o faterion. Er enghraifft, rydym wedi bod yn ymwneud yn rhagweithiol â'r broses o lunio achos busnes ar gyfer trydaneiddio Prif Reilffordd y Great Western o Lundain i Dde Cymru.

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd ar lefel Gweinidogol yn Llywodraeth y DU, a chyda Phrif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn dod i Gymru. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ar 1 Mawrth y byddai'n ymestyn y gwaith trydaneiddio ar Brif Reilffordd y Great Western i Dde Cymru, cyn belled â Chaerdydd i ddechrau, gyda'r achos am ymestyn i Abertawe yn cael ei gadw dan ystyriaeth. Roedd y cyhoeddiad hefyd yn ymrwymo'r Llywodraeth glymblaid i weithio gyda Llywodraeth Cymru i drydaneiddio gwasanaethau Cledrau'r Cymoedd i Gaerdydd ar gyfer cymudwyr.

Ym mis Rhagfyr, cadeiriodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarfod cyntaf Grŵp Cynghori ar Fusnes Swyddfa Cymru yn Llundain. Croesawyd cynrychiolwyr o bob rhan o'r sbectrwm busnes yng Nghymru i Dŷ Gwydyr i rannu eu barn am yr amgylchedd busnes yng Nghymru gyda Gweinidogion Swyddfa Cymru ac i gyflwyno gwybodaeth i Grŵp Cynghori Busnes y DU a gadeirir gan y Prif Weinidog. Ers hynny mae'r Grŵp wedi cyfarfod bob chwarter i drafod y materion allweddol sy'n effeithio ar Gymru gyda Gweinidogion Swyddfa Cymru a Gweinidogion yn Adrannau eraill y Llywodraeth hefyd.

Hefyd ym mis Rhagfyr, cynhaliodd yr Ysgrifennydd Gwladol y cyfarfod tairochrog cyntaf gyda Gweinidog Band Eang Llywodraeth y glymblaid a Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth Cymru i drafod y Strategaeth Band Eang Cenedlaethol a'r Ymrwymiad Band Eang Cyffredinol. Gwnaeth cynnydd da yn y cyfarfod a bu'n gymorth i wreiddio'r broses o ymgysylltu gweithredol rhwng swyddogion yn Whitehall a Llywodraeth Cymru a fydd yn helpu Cymru i fanteisio'n llawn ar ymrwymiad y Llywodraeth glymblaid i gael y rhwydwaith band eang cyflym iawn gorau yn Ewrop erbyn 2015. Bydd cyfarfodydd pellach yn cael eu trefnu dros y misoedd nesaf i fonitro'r cynnydd ac i edrych ar ffyrdd eraill o gefnogi'r gwaith o ehangu band eang cyflym iawn ar draws Cymru.

## 1.4 Llywodraeth Atebol a Thryloyw

Mae tryloywder yn rhan allweddol o agenda diwygio ac effeithlonrwydd y Llywodraeth glymblaid. Ym mis Mai 2010, cyhoeddodd y Prif Weinidog gynllun radical i gyhoeddi data'r Llywodraeth ar-lein i wneud y Llywodraeth yn fwy atebol, effeithlon a thryloyw nag erioed o'r blaen.

A'r data wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan, cewch fanylion

- Ein gwariant dros £500;
- Strwythur a chyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil;
- Llety, teithiau trenau ac awyrennau Gweinidogion;
- Teithiau tramor Gweinidogion;
- Lletygarwch a dderbynnir gan Weinidogion, y Cynghorydd Arbennig a'r Cyfarwyddwr;
- Rhoddion a roddir ac a dderbynnir gan Weinidogion sydd werth dros £140 a chan y Cynghorydd Arbennig; a
- Manylion cyfarfodydd a gaiff Gweinidogion â sefydliadau allanol.

Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei diweddaru'n rheolaidd.

Roedd Agenda Tryloywder y Llywodraeth glymblaid yn ymrwymo pob un o adrannau'r Llywodraeth i gyhoeddi gwariant yr adrannau ar anfonebau dros £25,000. Penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol y byddai Swyddfa Cymru yn mynd gam ymhellach na'r ymrwymiad hwnnw a chyhoeddi'r holl eitemau gwariant dros £500.

## 1.5 Lleihau'r diffyg – chwarae ein rhan

Ers dod i rym mae'r Llywodraeth glymblaid wedi gwneud y gwaith o fynd i'r afael â diffyg y DU yn brif flaenoriaeth iddi er mwyn adfer hyder yn yr economi a chefnogi'r adferiad.

Mae'n iawn fod Swyddfa Cymru yn chwarae'i rhan yn y cynllun hwn ar gyfer lleihau'r diffyg. Gan yr ariennir ein gwariant o Floc Cymru rydym wedi ymrwymo i fod yn ddarbodus iawn gyda'n costau i sicrhau bod cymaint â phosibl o gyllid ar gael ar gyfer gwasanaethau datganoledig yng Nghymru. Bydd traean o ostyngiad mewn termau real yng nghyfanswm cyllideb Swyddfa Cymru dros Gyfnod yr Adolygiad o Wariant sy'n gyson â'r gostyngiadau ar draws Whitehall.

# 2 Cyflawni dros Gymru dan y Setliad Datganoli

***Amcan 1: Cynnal a datblygu'r setliad datganoli a hybu partneriaeth weithio rhwng sefydliadau a Gweinyddiaethau Datganoledig a rhai'r DU.***

## 2.1 Rhoi ei Llais i Gymru – Cyflawni'r Refferendwm

Wrth ddechrau ar eu gwaith ym mis Mai, ymrwymodd y Llywodraeth glymblaid i gyflwyno'r refferendwm ar ragor o bwerau deddfu yn unol â chais Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Chwefror 2010.

Bu gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Adran rôl hanfodol yn sicrhau bod y gwaith hwnnw'n cael ei ddatblygu i roi llais i bobl Cymru yng nghyswllt datganoli rhagor o bwerau deddfu. Gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, y Comisiwn Etholiadol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, daethpwyd i gytundeb a fu'n fodd i hwyluso'r ddeddfwriaeth a oedd yn angenrheidiol i gyflwyno'r refferendwm a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2011.

Gwnaethom gadw at yr amserlen a osodwyd yn rhaglen '*Cymru'n Un*' Llywodraeth Cymru o gynnal y refferendwm yn ystod oes y Cynulliad blaenorol.

## 2.2 Deddfu Gyda'n Gilydd dros Gymru

Mae Swyddfa Cymru yn cydgysylltu ac yn cefnogi mathau amrywiol o ddeddfwriaeth sy'n cael effaith yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD)[1] a gychwynnir gan Lywodraeth Cymru; Biliau'r DU sy'n cynnwys darpariaethau penodol i Gymru, gan gynnwys Pwerau Fframwaith, a darnau o is-ddeddfwriaeth.

Mae'r holl fathau o ddeddfwriaeth yn gofyn am gydweithio rhwng y Llywodraeth yn San Steffan a Llywodraeth Cymru. Dros y flwyddyn adrodd ddiwethaf mae Swyddfa Cymru wedi parhau i annog a hybu'r bartneriaeth weithio ofynnol i sicrhau bod buddiannau pobl Cymru yn cael eu cynrychioli'n deg yn y ddeddfwriaeth sy'n cael ei phasio.

### *Rhaglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth Glymblaid a Chymru*

Mae'r Adran yn hyrwyddo buddiannau Cymru pan lunnir deddfwriaeth y Llywodraeth drwy gael cysylltiad trwyadl a helaeth â datblygiad Biliau'r Llywodraeth.

[1] Daeth Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y gwneir Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) oddi tani, yn ddi-rym ar 5 Mai 2011, pan ddaeth Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad i rym.

Cafwyd cyswllt rheolaidd gydol y flwyddyn â thimau'r Biliau wrth inni ddarparu cyngor ac arweiniad i adrannau Whitehall ar sut y byddai deddfwriaeth arfaethedig yn effeithio ar Gymru a sut y dylid adlewyrchu Setliad Datganoli Cymru.

Mae'r Llywodraeth glymblaid wedi cyflwyno 26 Bil gerbron y Senedd hyd yma fel rhan o'i rhaglen ddeddfwriaethol gyntaf. Roedd 11 Bil wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol erbyn 31 Mawrth 2011. Mae'r Biliau sydd ar hyn o bryd gerbron y Senedd sydd o ddiddordeb arbennig i Gymru yn cynnwys y Bil Seneddau Tymor Penodol sy'n darparu ar gyfer cynnal etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2016 a'r Bil Addysg sy'n rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru yng nghyswllt hyfforddiant athrawon a hybu gyrfaoedd.

Anerchodd yr Ysgrifennydd Gwladol Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 16 Mehefin 2010 i gyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol arfaethedig y Llywodraeth glymblaid a'i goblygiadau i Gymru, yn dilyn araith y Frenhines yn y Senedd.

### *Diwygio Cyfansoddiadol*

Cafwyd nifer o Filiau Llywodraeth a Deddfau Seneddol yn y sesiwn seneddol hon sy'n cael effaith sylweddol yng Nghymru. Er enghraifft, ceir darpariaeth yn Neddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 ar gyfer cael Tŷ'r Cyffredin llai o 600 Aelod Seneddol, a llai o etholaethau seneddol o faint mwy cyfartal.

Mae cydraddoldeb a thegwch ar draws y Deyrnas Unedig yn un o brif egwyddorion y diwygiadau. Ar hyn o bryd mae gormod o gynrychiolwyr o Gymru yn San Steffan o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU, ac fel gweddill y wlad, bydd yn gweld gostyngiad yn nifer yr Etholaethau seneddol. Bydd nifer yr etholaethau seneddol yng Nghymru yn gostwng o 40 i 30.

Mae'r Ddeddf hefyd yn torri'r cysylltiad rhwng etholaethau Seneddol ac etholaethau'r Cynulliad. Bydd y Llywodraeth Glymblaid yn cyflwyno deddfwriaeth yn y dyfodol a fydd yn caniatáu diwygio etholaethau'r Cynulliad.

Cydnabu Gweinidogion Swyddfa Cymru bwysigrwydd y cynigion ym Mil Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau i Gymru. Bu'r Gweinidog yn ymgysylltu'n rhagweithiol â Gweinidog y Bil – Mark Harper, y Gweinidog dros Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol - i sicrhau bod materion Cymreig yn cael eu hystyried yn iawn yn ystod taith y Bil drwy'r Senedd. Ym mis Medi, galwodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarfod o'r holl ASau sy'n cynrychioli etholaethau yng Nghymru i drafod cynigion y Llywodraeth glymblaid ar gyfer diwygio cyfansoddiadol gyda Gweinidog y Bil. Yn ogystal, rhoddodd Gweinidogion Swyddfa Cymru dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig a thrafod y materion gydag ASau yn Neuadd San Steffan.

### *Cryfhau Cymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad*

Nes i ddarpariaethau Deddfau'r Cynulliad yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ddod i rym, roedd cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn cael ei gryfhau mewn dwy ffordd: drwy Bwerau Fframwaith mewn Deddfau Seneddol a thrwy Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD).

### *Pwerau Fframwaith*

Roedd Swyddfa Cymru yn parhau i hybu cynnwys Pwerau Fframwaith ym Miliau'r DU. Roedd y rhaglen ddeddfwriaethol gyntaf yn cynnwys Pwerau Fframwaith yn y Bil Addysg, y Bil Lleoliaeth a'r Bil Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol.

Yn dilyn y refferendwm ar 3 Mawrth, sicrhaodd y Cynulliad y rhan fwyaf o'r cymhwysedd deddfwriaethol a oedd mewn Pwerau Fframwaith ym Miliau'r sesiwn gyntaf. Felly tynnodd Swyddfa Cymru y darpariaethau hynny o'r Bil Addysg a'r Bil Lleoliaeth ar y cyfle cyntaf, gan weithio gydag Adrannau perthnasol y Llywodraeth[2].

Gosododd y Pwerau Fframwaith yn Neddf Swyddfa Cyfrifoldeb dros Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol 2011 fater newydd yn Atodlen 5 a thestun newydd yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y ddau yn ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ni wnaethpwyd dim newidiadau i'r darpariaethau hyn gan fod y Bil ar fin cael ei gwblhau pan gynhaliwyd y refferendwm.

Cynhaliodd y Gweinidog a Llefarydd Tŷ'r Arglwyddi dros Gymru sesiynau briffio ar gyfer ASau ac Arglwyddi Cymru ar y Pwerau Fframwaith yn y Biliau hyn. Roedd y sesiynau'n gyfle i'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth i Seneddwyr am y rhesymau dros geisio pwerau cryfach i'r Cynulliad.

### *Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD)*

Bu gan Swyddfa Cymru rôl allweddol yn 2010-11 yn delio â Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD).

Roedd y Rhaglen ar gyfer Llywodraethu yn ymrwymo'r Llywodraeth glymblaid i fwrw ymlaen â'r GCD Tai a Llywodraeth Leol[3], a gynigiwyd gyntaf yn 2007, ond nid oedd wedi cwblhau'i gamau seneddol erbyn galw Etholiad Cyffredinol 2010.

Ar ôl ymgymryd â'u swyddi, nododd Gweinidogion Swyddfa Cymru mai un flaenoriaeth gynnar fyddai bwrw ymlaen â'r GCD. Ar 21 Gorffennaf 2010, cafodd pwerau eu datganoli i'r Cynulliad ar ystod eang o faterion tai gan gynnwys tai cymdeithasol a digartrefedd.

Bu Swyddfa Cymru hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno dau GCD newydd i'r Senedd ar gyfer craffu arnynt cyn y broses deddfu.

---

[2] Tynnwyd y Pwerau Fframwaith drwy ddiwygiadau o'r Mesur Addysg ar 5 Ebrill 2011 ac o'r Bil Lleoliaeth ar 18 Mai 2011.

[3] Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol)(Tai a Llywodraeth Leol) 2010

Byddai'r GCD cyntaf – a gynigiwyd gan Bwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad, a'r cyntaf i'w gyflwyno gan Bwyllgor Cynulliad (gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad) – wedi datganoli cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu ar gyfer datblygu a chynnal rhwydwaith o lwybrau yng Nghymru ar gyfer cerddwyr a beicwyr[4]. Cyflwynodd yr Adran y GCD arfaethedig gerbron y Senedd ar 3 Chwefror 2011 ar gyfer craffu arno cyn deddfu, ond cafodd ei dynnu'n ôl yn ddiweddarach gan Bwyllgor y Cynulliad oherwydd canlyniad y refferendwm ac o gofio y byddai darpariaethau Deddfau'r Cynulliad yn dod i rym[5].

Byddai'r ail GCD, a gyhoeddwyd gan Brif Weinidog Cymru ar 13 Gorffennaf 2010 fel rhan o raglen ddeddfwriaethol 2010-11 Llywodraeth Cymru, wedi rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad i basio deddfau'n ymwneud â system o ganiatâd tybiedig yng Nghymru ar gyfer rhoi organau. Cyflwynodd yr Adran y GCD arfaethedig i'r Senedd ar gyfer craffu arno cyn deddfu ar 10 Ionawr 2011, ond cafodd ei dynnu'n ôl yn ddiweddarach gan Lywodraeth Cymru.

### *Mesurau'r Cynulliad*

Mae gan Swyddfa Cymru rôl allweddol yn monitro Mesurau arfaethedig wrth iddynt fynd drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod uniondeb y setliad datganoli'n cael ei gynnal, ac na fydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer ei phwerau ymyrryd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae tri ar ddeg o Fesurau'r Cynulliad wedi cael Cymeradwyaeth Frenhinol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Y rhain yw:

- Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru)
- Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)
- Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)
- Mesur Gwastraff (Cymru)
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru)
- Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu)
- Mesur y Gymraeg (Cymru)
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)
- Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru)
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru)
- Mesur Diogelwch ar Gludiant Dysgwyr (Cymru)
- Mesur Tai (Cymru)
- Mesur Addysg (Cymru)

## 2.3 Cynrychioli Cymru yn y Senedd

Rydym yn rhoi pwys mawr ar hybu cysylltiadau gweithio da rhwng Whitehall a Llywodraeth Cymru, a sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu polisiau.

---

[4] Gorchymyn arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol)(Priffyrdd a Thrafnidiaeth) 2011

[5] Daeth darpariaethau Deddfau'r Cynulliad i rym ar 5 Mai 2011, ac maent yn cynnwys pwerau i'r Cynulliad ddeddfu ar lwybrau i gerddwyr a beicwyr.

Gwneir y rhan fwyaf o’r gwaith hwn y tu ôl i’r llenni, gan gynnwys gan Weinidogion yn y Cabinet a Phwyllgorau'r Cabinet. Bu'r Gweinidogion hefyd yn brysur yn hyrwyddo rhaglen o gyfarfodydd ac ymweliadau i sicrhau bod eu cydweithwyr yn ymwybodol o anghenion Cymru.

Yn y Senedd, cynrychiolodd y Gweinidogion safbwynt y Llywodraeth glymblaid ar nifer o faterion yn ymwneud â setliad datganoli Cymru. Fel rhan o atebolrwydd ehangach Gweinidogion Swyddfa Cymru i'r Senedd, cafodd nifer sylweddol o Gwestiynau Seneddol eu cyflwyno/hateb rhwng Mai 2010 a diwedd Mawrth 2011.

| | Arferol Ysgrifenedig | Enwebedig/ Dyddiad Trafod | Llafar |
|---|---|---|---|
| Tŷ'r Cyffredin | 267 | 41 | 69 |
| Tŷ’r Arglwyddi | 7 | 0 | 2 |
| CYFANSWM | 274 | 41 | 71 |

Y Pwyllgor Materion Cymreig yw'r prif Bwyllgor Dethol Seneddol sy'n craffu ar waith Swyddfa Cymru a pholisiau ehangach adrannau eraill y Llywodraeth sy'n dylanwadu ar Gymru. Ers Mai 2010 mae’r Pwyllgor Materion Cymreig wedi ymgymryd â nifer o ymchwiliadau ar faterion megis dyfodol Swyddfa Basbort Casnewydd, mewnfuddsoddiad i Gymru a thollau croesi Afon Hafren. Mae Swyddfa Cymru wedi rhoi tystiolaeth i’r Pwyllgor ac wedi helpu adrannau eraill i ddatblygu’u perthynas â’r Pwyllgor. Rhoddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru dystiolaeth i’r Pwyllgor ddwy waith yn ystod y 12 mis diwethaf, ym mis Gorffennaf 2010 a Mawrth 2011.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynnal nifer o gyfarfodydd o'r Uwch Bwyllgor Cymreig ar destunau'n amrywio o Gyllideb 2011 a goblygiadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant i Gymru i'r Polisi Ynni a’r Rhaglen Ddeddfwriaethol. Yn yr holl gyfarfodydd hyn, roeddem wedi sicrhau bod Gweinidog perthnasol y Llywodraeth glymblaid yn bresennol i roi Datganiad i’r aelodau ac i ateb cwestiynau.

# 3 Cymru wrth wraidd Llywodraeth

## *Amcan 2: Cynrychioli buddiannau Cymru yn y Llywodraeth*

### 3.1 Cynrychioli buddiannau Cymru

Adran fechan yw Swyddfa Cymru o'i gymharu ag eraill yn Whitehall ac eto mae ganddi ddylanwad cryf ar bolisi'r Llywodraeth glymblaid. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol sedd ar fwrdd y Cabinet, sydd o fudd enfawr i Gymru, sy'n golygu bod barn a buddiannau Cymru yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol yn y broses benderfynu gyfun wrth wraidd llywodraeth.

### 3.2 Gweithio gyda Datganoli

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Swyddfa Cymru wedi bod, ac yn parhau i fod, yn ymrwymedig i hybu ymwybyddiaeth o'r setliad datganoli Cymru, a gwybodaeth amdano, ar lefel Gweinidog a swyddog. Mae gwella'r ymwybyddiaeth o ddatganoli'n hollbwysig i helpu adrannau i gyflwyno rhaglen y Llywodraeth glymblaid. Y partneriaid allweddol yw Swyddfa'r Cabinet, y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Trysorlys.

Mae swyddogion Swyddfa Cymru yn cyfrannu at nifer o rwydweithiau sy'n bodoli i hyrwyddo datganoli ar draws Whitehall. Fel rhan o Grŵp Cysylltiadau Whitehall, rydym yn cyfarfod yn gyson â swyddogion o adrannau eraill sy'n gofalu am faterion datganoli yn eu maes. Mae'r fforwm hwn yn llwyfan da ar gyfer rhannu syniadau a chyfnewid enghreifftiau o arfer gorau. Mae swyddogion o'r gweinyddiaethau datganoledig yn mynychu bob yn ail cyfarfod, gan hybu ymgysylltiad uniongyrchol ar faterion allweddol a meithrin cysylltiadau gweithio da. Mae swyddogion Swyddfa Cymru hefyd yn hybu trafodaethau mewn adrannau ar y setliad datganoli yng Nghymru a sut mae'n effeithio ar eu gwaith. Cafwyd rhai o'r sesiynau diweddaraf gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran Drafnidiaeth.

Ar ôl ei phenodi, cydnabu Ysgrifennydd Gwladol Cymru bod gweithredu ar ddatganoli ar draws y llywodraeth yn gofyn am ragor o bwyslais ar lefel gweinidog. I'r diben hwn, cyflwynodd y cysyniad o Weinidog Datganoli ymhob un o Adrannau'r Llywodraeth i fod yn gyfrifol am sicrhau bod datganoli'n cael ei ystyried yn llawn ac yn briodol gan eu hadrannau wrth ddatblygu polisiau. Gyda chymorth y Dirprwy Brif Weinidog, sefydlwyd y rhwydwaith a chrewyd pwyllgor i ystyried materion datganoli.

Ym mis Ebrill 2010, cyhoeddodd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig adroddiad ar y berthynas rhwng Cymru a Whitehall. Cydnabu Gweinidogion y materion pwysig a godwyd ynddo ac ymateb i'r meysydd pryder a mapio cynlluniau i'r dyfodol.

Sefydlodd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd gyfarfodydd dwyochrog rheolaidd gyda Phrif Weinidog Cymru, ac mae wedi cynnal nifer o gyfarfodydd gyda phobl allweddol eraill megis y Llywydd i drafod nifer o faterion sy'n berthnasol i Gymru.

## 3.3 Gweithio gyda'n Gilydd dros Gymru

Gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a rhanddeiliaid ledled Cymru, mae Swyddfa Cymru yn ceisio sicrhau bod eu buddiannau'n cael eu cynrychioli yn ystod yr holl ddatblygiadau polisi mewn meysydd heb eu datganoli sy'n cysylltu â chyfrifioldebau datganoledig. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli yn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth glymblaid, y rhoddir sylw manylach iddi ym *Mhennod 2.*

Mae Gweinidogion a swyddogion Swyddfa Cymru yn gweithio'n gyson i roi gwybodaeth am y cyd-destun Cymreig a'r setliad datganoli i Adrannau eraill yn y Llywodraeth i sicrhau y defnyddir y gwybodaeth wrth ddatblygu polisïau adrannau, gan gynnwys Papurau Gwyrdd a Gwyn.

Ym mis Gorffennaf a mis Medi, mynychodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarfodydd Cyllid Pedairochrog a chadeirwyd gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys. Roedd y cyfarfodydd yn gyfle i weinidogion cyllid y tair gwlad ddatganoledig a'r Ysgrifenyddion Gwladol Tiriogaethol drafod sefyllfa ariannol y DU a rhannu, ymysg pethau eraill, eu blaenoriaethau economaidd a goblygiadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

Sylweddololodd yr Ysgrifennydd Gwladol yn syth bwysigrwydd trydaneiddio Prif Reilffordd y Great Western i ragolygon economaidd Cymru a'i nodi yn flaenoriaeth gynnar. Bu'r Adran yn cysylltu'n agos â rhanddeiliaid yng Nghymru i sicrhau bod penderfyniad y Llywodraeth yn ystyried anghenion Cymru ac er budd gorau economi Cymru. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth i ddatblygu achos busnes arall ar gyfer trydaneiddio Cledrau'r Cymoedd a'r brif lein i Abertawe.

Yng nghyd-destun diwygiadau'r Llywodraeth glymblaid ar gyfer y GIG, cafwyd deialog cyson rhwng Swyddfa Cymru a'r Adran Iechyd a Llywodraeth Cymru ar bwysigrwydd sicrhau bod y GIG yn parhau i weithredu ar draws y ffin mor ddi-fwlch â phosibl er lles cleifion. Cytunwyd ar Brotocol Trawsffiniol newydd rhwng yr Adran Iechyd a Llywodraeth Cymru a fydd yn weithredol tan Mawrth 2012.

Dywedodd Tasglu Gwledig yr Adran fod y ddarpariaeth band eang, ymysg materion eraill, yn destun pryder i lawer o gymunedau gwledig. Hwylusodd y Gweinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol drafodaethau gyda Gweinidogion a swyddogion o Lywodraeth Cymru, yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ganfod sut y byddai Cymru yn elwa o Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol y Llywodraeth i fand eang cyflym iawn. Ym mis Chwefror, yn ystod ymweliad â Gogledd Cymru, cyhoeddodd y Canghellor y byddai £10 miliwn yn cael ei fuddsoddi i ymestyn band eang cyflym iawn i Bwllheli a'r ardal gyfagos. Rhagwelwn y bydd cyhoeddiadau tebyg am fand eang yng Nghymru yn cael eu gwneud yn y man.

Mae Gweinidogion a swyddogion wedi cydweithio i gynrychioli buddiannau Cymru yn y Llywodraeth ar draws ystod o faterion polisi eraill hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys darlledu (dyfodol S4C yn arbennig) diwygio lles, plismona, hyfforddiant amddiffyn, ynni, trafod sut i ysgogi twf economaidd yng Nghymru, dyfodol Swyddfa Basbort Casnewydd a'r cynigion ar gyfer ad-drefnu'r Llysoedd.

## 3.4 Parchu'r Iaith Gymraeg

Mae gan yr Iaith Gymraeg rôl allweddol yn hunaniaeth ddiwylliannol llawer o bobl Cymru ac mae'r Llywodraeth glymblaid wedi ymrwymo i barchu'r defnydd ohoni. Mae'n rhaid i bob un o Adrannau'r Llywodraeth sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd fod â Chynllun Iaith Gymraeg. Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg ein hunain wedi cael ei ddiweddaru'n ddiweddar i sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu ein hymrwymiad i barchu'r iaith Gymraeg.

Rydym wedi ymrwymo i roi unrhyw gymorth y bydd adrannau eraill y Llywodraeth ei angen i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hadlewyrchu'n briodol yn y gwaith y maent yn ei wneud. Gwahoddwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gyfrannu at y Gweithgor ar y Refferendwm i sicrhau bod y cwestiwn a oedd yn cael ei ofyn i'r etholwyr yn cael ei ddatblygu yn y ddwy iaith o'r dechrau. Rydym hefyd yn gweithio i ddatblygu cysylltiadau gwell â Bwrdd yr Iaith Gymraeg a gobeithiwn eu cynnwys mewn gwaith codi ymwybyddiaeth yn Whitehall i sicrhau bod materion iaith yn cael eu hystyried yn gynnar wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth.

# 4 Llais y Llywodraeth yng Nghymru

## *Amcan 3: Gweithio gydag eraill i helpu i sicrhau bod polisiau’r Llywodraeth mewn meysydd heb eu datganoli yn cael eu deall a'u hyrwyddo yng Nghymru*

### 4.1 Cyfleu ein Gweledigaeth

Mae’r Llywodraeth Glymblaid wedi’i seilio ar raglen newid eang a phellgyrhaeddol. Er bod y flaenoriaeth ar leihau’r diffyg, mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn rhoi sylw i ddiwygio cymdeithasol a diwygio’r system wleidyddol. Mae sawl rhan o raglen y Llywodraeth glymblaid yn effeithio ar Gymru, ac er mwyn cyflawni dyletswyddau’r Llywodraeth i’r etholwyr, mae’n bwysig fod ei nodau’n cael eu cyfleu’n glir ac yn llawn.

Fel llais y Llywodraeth glymblaid yng Nghymru, cyfrifoldeb yr Adran yw cyfleu'r negeseuon hyn a rhai eraill. Drwy gyfrwng rhaglen o ymweliadau a chyfarfodydd eraill rydym wedi cyflwyno gweledigaeth a chynlluniau’r Llywodraeth glymblaid i randdeiliaid a chymunedau yng Nghymru. Er enghraifft, cyflwynwyd y weledigaeth honno gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei hanerchiad yng nghinio Sefydliad y Cyfarwyddwyr yng Nghasnewydd ym mis Medi. Yng nghinio Fast Growth 50 yng Nghaerdydd, cydnabu lwyddiant y cwmniau hyn sy'n ehangu, gan ddisgrifio cynlluniau'r Llywodraeth i greu twf cynaliadwy yn y sector preifat.

Ym mis Mehefin rhoddodd y Gweinidog y prif anerchiad yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn Llandudno, lle canolbwyntiodd ar bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r nod cyffredin o wella bywyd pob unigolyn yng Nghymru. Siaradodd y Gweinidog hefyd yng nghinio blynyddol y CBI yng Ngogledd Cymru fis Tachwedd diwethaf, lle cyfeiriodd at bwysigrwydd economi Gogledd Cymru ac amlinellu rôl Swyddfa Cymru a’i Gweinidogion yn hybu twf economaidd yng Nghymru.

Siaradodd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd â chynulleidfa gyfarwydd ym mis Ionawr pan fynychodd ginio blynyddol cangen Cymru o Sefydliad y Marchnatwyr Siartredig, sefydliad y mae’n gymrawd ohono. Roedd hon yn neges Flwyddyn Newydd o uchelgais ar gyfer economi Cymru. Rhoddwyd neges debyg yng Nghinio Blynyddol Ffederasiwn y Busnesau Bach lle pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Gwladol bod "Cymru angen rhagor o entrepreneuriaid".

Yn ogystal â sefydliadau busnes, siaradodd yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Chwefror ar Ddyfodol y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru fel rhan o’r Rhaglen Arweinyddiaeth ar gyfer Busnesau Creadigol.

Yn ystod y flwyddyn, cyfrannodd Gweinidogion Swyddfa Cymru at raglen brysur o ymweliadau ag ystod eang o fusnesau, arweinwyr diwydiant a mudiadau trydydd sector yng Nghymru. Roeddynt yn cynnwys ymweliadau â chwmniau rhyngwladol mawr megis Sharp, Toyota ac Airbus, busnesau arloesol llai, a mudiadau megis Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Sefydliad Cymunedol Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi ymweld â nifer o sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, gan gydnabod y rôl allweddol sydd gan brifysgolion ym mywyd economaidd a diwylliannol y wlad. Ymwelodd y Gweinidog â Phrifysgol Glyndŵr, lle mae gwaith arloesol ym maes opteg telesgopau'n cael ei wneud, ac ymwelodd yr Ysgrifennydd Gwladol â Phrifysgolion Aberystwyth, Caerdydd ac Abertawe, y rhain i gyd yn sefydliadau allweddol sydd ag enw da am gyflawniadau academaidd ac ymchwil.

Mae'r ddau Weinidog hefyd wedi trafod y materion sy'n ymwneud ag Addysg Uwch yng Nghymru gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac Addysg Uwch Cymru, a hefyd gyda Gweinidogion yn Whitehall a Bae Caerdydd wrth i'r ddwy lywodraeth anelu at wneud addysg uwch yn fforddiadwy a chynaliadwy yn y tymor hir.

## 4.2 Cynnwys Cymru

Swyddfa Cymru a'i Gweinidogion sy'n gyfrifol am gynghori cydweithwyr yn San Steffan am fuddiannau penodol Cymru mewn materion heb eu datganoli. Mae'n rhaid i Swyddfa Cymru weithredu mewn dwy ffordd, gan gyfleu neges y Llywodraeth glymblaid, a'r rhesymeg dros y penderfyniadau y mae wedi gorfod eu gwneud, yn arbennig ar yr economi ar gyfer y tymor hir, i bobl Cymru. Ar yr un pryd, mae'n hollbwysig fod ein Gweinidogion yn rhoi gwybod i gydweithwyr yn y Llywodraeth beth yw barn y rheini y mae'r penderfyniadau hyn yn effeithio arnynt, er mwyn i bryderon penodol Cymru gael eu hystyried fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn gosod Swyddfa Cymru, ynghyd â'r holl Swyddfeydd Tiriogaethol eraill mewn sefyllfa anghyffredin ond dylanwadol yn Whitehall.

Mae Swyddfa Cymru wedi hwyluso nifer o ymweliadau â Chymru gan Weinidogion y Llywodraeth, gan gynnwys ymweliad gan y Prif Weinidog ym mis Mai 2010 - yr ymweliad cyntaf gan unrhyw Brif Weinidog â'r Senedd, ac ymweliadau dilynol gan y Dirprwy Brif Weinidog, Canghellor y Trysorlys, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ymysg eraill. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth am faterion Cymreig a hefyd yn rhoi cyfle i bartneriaid allweddol yng Nghymru roi eu barn i lefel uchaf y Llywodraeth.

Mae materion heb eu datganoli sydd wedi dod i'r amlwg eleni yn cynnwys cyllid i Gymru; darlledu; troseddu a phlismona; ac ynni.

Mae’r ffordd y mae datganoli yng Nghymru yn cael ei ariannu wedi bod yn destun cryn drafod a dadlau yn ystod y flwyddyn. Roedd adroddiad terfynol Comisiwn Holtham[6], a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, yn argymell newidiadau i'r trefniadau presennol. Mae'r Llywodraeth glymblaid yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan y Comisiwn am y system bresennol, ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi trafod canfyddiadau'r Comisiwn gyda'i Gadeirydd, yr Athro Gerry Holtham. Ymrwymodd y Llywodraeth glymblaid yn ei Rhaglen ar gyfer Llywodraethu i fwrw ymlaen â phroses ar gyfer y Cynulliad tebyg i Gomisiwn Calman.

Mae darlledu yn faes heb ei ddatganoli ac mae gan Gymru fuddiannau ar wahân o ran y ddarpariaeth newyddion yn ogystal ag o ran iaith a diwylliant. Eleni cyfarfu ein Gweinidogion ag unigolion allweddol ym maes darlledu yng Nghymru, gan gynnwys Cadeirydd ITV a Chyfarwyddwr BBC Cymru i drafod darlledu yng Nghymru. Croesawodd Swyddfa Cymru y buddsoddiad ychwanegol gan ITV a BBC yng Nghymru, a gwnaeth pentref drama'r BBC sy'n cael ei adeiladu ym Mae Caerdydd argraff fawr ar yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd rhai o raglenni mwyaf poblogaidd BBC yn cael eu cynhyrchu yn y pentref drama newydd hwn.

Un o’r materion mwyaf heriol ar gyfer darlledu yng Nghymru fu sicrhau dyfodol S4C. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol a’r Gweinidog yn gwbl ymrwymedig i sicrhau bod rhaglenni Cymraeg yn aros yn rhan bwysig o'r tirwedd darlledu yn y DU ac, yn bwysig iawn, bod sianel annibynnol benodol ar gyfer darlledu yn yr Iaith Gymraeg yn cael ei chadw. Mae’r ddau wedi cyfarfod yn rheolaidd â chydweithwyr gweinidogol yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch y mater hwn, ac wedi sefydlu cysylltiadau gweithio agosach o ran polisi fel y mae'n effeithio ar awdurdod S4C. Maent hefyd wedi cynnal cyfarfodydd a thrafodaethau gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr dros dro S4C.

Mae plismona yn faes heb ei ddatganoli ac yn hynod bwysig i Gymru. Mae diwygio gwasanaeth yr heddlu a sicrhau bod ein plismyn yn treulio rhagor o'u hamser ar leihau troseddu a llai ar weithgareddau biwrocrataidd i wneud cymunedau Cymru yn fwy diogel wedi bod yn bwysig iawn. Eleni mae’n Gweinidogion wedi cael cyfarfodydd i drafod materion plismona a datblygiadau polisi gyda holl Brif Gwnstabliaid Cymru, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru, Awdurdodau Heddlu Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Un o nodau strategol canolog unrhyw lywodraeth fodern yw sicrhau bod digon o ynni'n cael ei gynhyrchu, gyda phwyslais ar leihau carbon a diogelu ffynonellau ynni. Yn gyffredinol mater heb ei ddatganoli yw polisi ynni yng Nghymru, gyda Llywodraeth Cymru ond yn gyfrifol am safleoedd sy'n cynhyrchu llai na 50 MW. Mae gan Gymru le amlwg ar fap ynni’r DU, gyda safle niwclear, terfynellau Nwy Hylif Naturiol (LNG) a phiblinellau cysylltiedig, a nifer o safleoedd tyrbinau gwynt ar y tir ac ar y môr. Ym mis Mawrth, trefnodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarfod o gwmpas y bwrdd gyda sefydliadau ynni blaenllaw yn Aberdaugleddau. Croesawodd y Gweinidogion hefyd yr awgrym gan yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd fod Wylfa yn safle a oedd yn cael ei ffafrio ar gyfer gorsaf bŵer niwclear yn y dyfodol, gan barhau ag un o ysgogwyr economaidd allweddol gogledd Ynys Môn.

---

[6] Tegwch ac atebolrwydd: setliad ariannu newydd i Gymru – Adroddiad Terfynol; y Comisiwn Annibynnol ar Gyllido a Chyllid yng Nghymru, Gorffennaf 2010

## 4.3 Gweithio gyda Rhanddeiliaid

Mae barn rhanddeiliaid a grwpiau cynrychiadol yng Nghymru yn bwysig iawn i Weinidogion. Anelwn at gael cysylltiad rheolaidd â'r grwpiau hyn a chyflwyno'u barn i gydweithwyr yn Whitehall fel y bo'n briodol.

Mae ein dull gweithredu'n debyg i un y Llywodraeth glymblaid ehangach, sy'n cael ei ddangos drwy'r ymgynghori ar flaenoriaethau polisi allweddol megis yr Adolygiad o Wariant a'r Bil Rhyddid. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng ngweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer y Gymdeithas Fawr, lle bydd atebion a darparu gwasanaethau'n cael ei yrru ar lefel leol.

Eleni rydym wedi ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid sy'n cynrychioli agweddau sy'n ganolog i fywyd economaidd a chymdeithasol Cymru. Yn ystod yr haf, lansiodd y Gweinidog Dasglu Swyddfa Cymru ar yr Economi Wledig. Mae dau Weinidog Swyddfa Cymru yn credu bod cymunedau gwledig yn bwysig iawn ac o'r herwydd wedi sefydlu fforwm y gall y cymunedau hyn a'u cynrychiolwyr busnes, bugeiliol ac eraill ei ddefnyddio i roi eu barn am yr hyn sy'n llesteirio'r economi wledig yng Nghymru. Ymatebodd rhanddeiliaid yn frwd i'r cyfle hwn, gan godi llawer o faterion y gallai'r Llywodraeth roi sylw iddynt yn eu barn hwy. Mae'r deunydd hwn wedi cyfrannu at ein ffyrdd o feddwl ac at drafodaethau gyda'r adrannau perthnasol.

Yn ogystal â mynd i'r afael â'r diffyg yn y coffrau cyhoeddus, mae'r Llywodraeth yn awyddus i ail-gydbwyso economi'r DU, ac mae Gweinidogion wedi bod yn gweithio'n frwd gyda phartneriaid allweddol i geisio gwella perfformiad economaidd Cymru. Anerchodd yr Ysgrifennydd Gwladol CBI Cymru ym mis Mehefin 2010 ac mae wedi cynnal cyfarfodydd bob chwarter gyda'r Cyfarwyddwr i drafod yr heriau economaidd y mae Cymru yn eu hwynebu a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi bod yn cysylltu'n agos â grwpiau busnes ymbarél eraill, megis Sefydliad y Cyfarwyddwyr, y Ffederasiwn Busnesau Bach, Siambr Fasnach De Cymru a Cardiff & Co ar bolisiau economaidd y Llywodraeth a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i ddatblygu economi Cymru, drwy ryddhau busnes a lleihau rheoleiddio diangen.

Mae gan Gymru gyfran uwch o bobl hŷn na rhannau eraill o'r DU ac mae llawer yn disgwyl i hyn gynyddu. Felly mae materion sy'n wynebu pobl hŷn yn bwysig iawn yng Nghymru, ac mae disgwyliadau pobl hŷn yn newid hefyd. Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru wedi cynnal cyfarfodydd a threfnu digwyddiadau cyhoeddus gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, gan roi cyfleoedd i'r Llywodraeth glymblaid glywed barn a phryderon pobl hŷn Cymru yn uniongyrchol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod barn pobl hŷn yn cael ei hystyried wrth i'r Llywodraeth glymblaid fwrw ymlaen ag amrywiaeth o bolisïau sydd o ddiddordeb iddynt hwy.

Mae gweledigaeth y Gymdeithas Fawr yn llinyn drwy'r Rhaglen ar gyfer Llywodraethu, ac yn ganolog i ddatblygu'r weledigaeth honno yw ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys mudiadau'r gymdeithas sifil, y sector cyhoeddus a rhannau eraill o'r Llywodraeth. Mae llawer o sbardunau'r Gymdeithas Fawr wedi'u datganoli. O'r herwydd, efallai y bydd gweithredu'r Gymdeithas Fawr yn amrywio yng Nghymru, sefyllfa sy'n gwbl gydnaws â'r weledigaeth sydd wedi'i seilio ar ddelfrydau penderfynu'n lleol a datganoli.

Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru wedi cyfarfod â Gweinidogion Llywodraeth Cymru i bwysleisio’r buddion a geir drwy gefnogi gweledigaeth y Gymdeithas Fawr yng Nghymru. Mae Gweinidogion wedi trafod y weledigaeth hon hefyd gyda chynrychiolwyr y trydydd sector, megis Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a’r sector cyhoeddus, gan gynnwys Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Amlinellwyd dull y Llywodraeth o weithredu gan y Gweinidog yn ystod cyfarfod gyda Sefydliad Cymunedol Cymru, ac yn dilyn hynny rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol y prif anerchiad yn lansiad ’Cronfa i Gymru’ y Sefydliad yn Llundain. Mae'r gweithgarwch hwn wedi'i gefnogi gan raglen o ymweliadau gan Weinidogion â phrosiectau yng Nghymru sy'n dangos gweledigaeth y Gymdeithas Fawr ar waith, megis y gydweithfa gymunedol yn Nhrefeglwys a chydweithfa Fareshare Crest yng Nghyffordd Llandudno.

Ar hyn o bryd mae Swyddfa Cymru yn rhoi trefn derfynol ar gynlluniau i gynnal seminar ar adeiladu'r Gymdeithas Fawr yng Nghymru, gan wahodd rhanddeiliaid i rannu profiadau ac arferion gorau i hybu'r weledigaeth yng Nghymru.

# 5 Cyflwyno Cymru i'r byd

## *Amcan 4: Hyrwyddo buddiannau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru*

Mae Swyddfa Cymru a'i thîm gweinidogol yn falch o gynrychioli Cymru, a hyrwyddo'r wlad fel man i fuddsoddi, gweithio a mwynhau.

### 5.1 Cymru fel Man Gwaith

Fel gwlad fach, mae'n bwysig manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo Cymru, yn enwedig fel man i gyflawni busnes. Mae Swyddfa Cymru mewn sefyllfa dda i hwyluso gwaith o'r fath, gan ddod â phartion â diddordeb at ei gilydd a defnyddio'i hadnoddau i hyrwyddo buddiannau Cymru.

Un flaenoriaeth allweddol i'r ddau Weinidog yw hyrwyddo Cymru yn y farchnad fyd-eang. I fynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon, mae'r Gweinidogion wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o Japan, Tsieina, Rwsia a Gwlad Pwyl, a busnesau yn yr Almaen a oedd yn cael eu cynrychioli gan German Industry UK er mwyn hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ar gyfer masnachu a buddsoddi.

Yn ogystal â'r gwaith hyrwyddo allanol hwn, mae'r tîm gweinidogol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, cydweithwyr yn y Llywodraeth glymblaid ac eraill i annog mewnfuddsoddi a thwf busnes yng Nghymru. Mae'r Adran wedi sefydlu bwrdd prosiect mewnol a'i aelodau'n cynnwys Llywodraeth Cymru, yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau ac UKTI i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi cyfarfod â'r Arglwydd Brittan, yr Arglwydd Green ac UKTI i drafod sut i annog rhagor o fewnfuddsoddi i Gymru.

Fel sydd wedi'i grybwyll eisoes, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi creu Grŵp Cynghori ar gyfer Busnes ar gyfer Swyddfa Cymru er mwyn gwella'r ddealltwriaeth am sut y gellir annog y sector preifat i feithrin twf newydd yng Nghymru. Mae hyn wedi dod â chynrychiolwyr busnes at ei gilydd ac wedi rhoi cyfle iddynt ddarparu tystiolaeth uniongyrchol am y materion sy'n effeithio ar y gymuned fusnes yng Nghymru. Mae aelodau wedi cael eu gwahodd i ymuno ar sail deuddeg mis, ac mae cyfansoddiad y Grŵp yn cynnwys cwmniau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn unig ochr yn ochr â'r rheini sydd â mwy o bresenoldeb cenedlaethol neu ryngwladol.

### 5.2 Cymru fel Man i Fwynhau

Mae Cymru yn enwog am ei thirweddau a'i harfordiroedd hardd a'i chefn gwlad hyfryd. Mae ganddi bron i 750 milltir o arfordir a thraethau a all gymharu â'r gorau yn y byd o ran diogelwch, glendid, a heb fod wedi'u difetha; a choedwigoedd a mynyddoedd, sy'n berffaith ar gyfer cerdded neu feicio mynydd.

Mae gan Gymru hefyd gyfleusterau chwaraeon heb eu hail i ddenu ymwelwyr. Mae'r stadia chwaraeon megis Parc y Scarlets yn Llanelli, Stadiwm Liberty yn Abertawe, y Cae Ras yn Wrecsam, Stadiwm Dinas Caerdydd yng Nghaerdydd, a Stadiwm y Mileniwm gyda'i safle unigryw yng nghanol y ddinas i gyd yn cynnig cyfleusterau ar gyfer digwyddiadau corfforaethol, cyngherddau a chwaraeon rhyngwladol. Wrth gwrs, bydd 2010 wastad yn cael ei chofio fel y flwyddyn y daeth un o ddigwyddiadau chwaraeon mwyaf y byd i'w ddangos ar y teledu i Gymru, sef Cwpan Ryder a gynhaliwyd yng ngwesty'r Celtic Manor, Casnewydd.

Rhaid i ni fanteisio ar ein holl asedau, y rhai naturiol a'r rhai o wneuthuriad dyn. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, bydd Swyddfa Cymru yn ceisio hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i ymwelwyr a man i fwynhau ar ben y cyfleoedd busnes a gynigir ganddi.

## 5.3 Gorau Cymru

Ers iddynt gychwyn yn eu swyddi, mae Gweinidogion Cymru wedi teithio ledled Cymru i weld a chefnogi ein talent a'n sgiliau, ac i drafod yn uniongyrchol â phobl a busnesau y materion sy'n bwysig iddynt. Yn ystod yr haf, aeth y Gweinidogion ar nifer helaeth o deithiau; disgrifir ychydig ohonynt isod.

Ym mis Mehefin 2010, cyfrannodd yr Ysgrifennydd Gwladol at Ddiwrnod y Lluoedd Arfog yng Nghaerdydd, digwyddiad llwyddiannus a phoblogaidd lle daeth pobl o bob rhan o'r DU i dalu teyrnged i'n lluoedd arfog ac i ddathlu eu bywydau, heddiw ac yn y gorffennol. Mynychodd y Gweinidog ddigwyddiad tebyg yng Nghastell Caernarfon.

Yna ym mis Gorffennaf, ymwelodd yr Ysgrifennydd Gwladol â Gwesty'r Celtic Manor i weld paratoadau Cwpan Ryder, ac yn ddiweddarach y twrnament llwyddiannus ei hun. Yn ddiweddarach y mis hwnnw aeth y ddau Weinidog i Sioe Frenhinol Cymru ac ym mis Awst lansiodd y Gweinidog Dasglu Swyddfa Cymru ar yr Economi Wledig yn Sioe Môn.

Ddechrau Awst mynychodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyngerdd agoriadol yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglyn Ebwy, ac ymweld â'r Maes y diwrnod wedyn. Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn un o wyliau mawr y byd, ac yn dal i fod, gan ddathlu amrywiaeth ddiwylliannol mewn amgylchedd sy'n mynd yn fwyfwy byd-eang. Nid yn unig y mae'n ddigwyddiad sy'n dangos y gorau o gelf, llenyddiaeth, cerddoriaeth a dawnsio Cymru, mae hefyd yn dathlu diwylliannau eraill o bob rhan o'r byd. Mynychodd y Gweinidog Eisteddfod Ryngwladol Llangollen hefyd.

Ceir rhestr lawn o gyfarfodydd ac ymweliadau'r Gweinidogion yn ystod y flwyddyn yn Atodiad A.

# 6 Effeithlon, Effeithiol a Theg

## *Amcan 5: Cynnal ein busnes yn gwrtais, yn effeithlon, yn effeithiol ac yn briodol*

### 6.1 Gwasanaethau a ddarperir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Ychydig o swyddogaethau gweithredol sydd gan Swyddfa Cymru. Gan fod cyfanswm ei staff yn llai na 60, nid yw'n ymarferol nac yn gost-effeithiol i Swyddfa Cymru ddarparu drosti'i hun yr holl wasanaethau canolog a chorfforaethol y mae ar Adran o Lywodraeth eu hangen. Er ei bod yn atebol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Gweinidog, ac er bod ganddi ei hunaniaeth arbennig ei hun, mae'r Adran yn elwa o allu defnyddio'r gwasanaethau cymorth a'r contractau a ddarperir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, systemau ariannol, personél, llety a chontractau caffael. Er mwyn sicrhau stiwardiaeth dda, ac yn unol â'r ffaith bod gennym hunaniaeth ar wahân, rydym yn ymdrechu i gael ein systemau rheoli ac adrodd lleol ein hunain, os yw hynny'n briodol ac yn ymarferol, o fewn y cyd-destun ehangach hwn.

Ceir cydweithio clos hefyd gyda Llywodraeth Cymru ar draws nifer o wasanaethau corfforaethol, sy'n deillio o'n hanes, ein swyddogaethau a'r ffaith bod oddeutu traean o'n staff ar hyn o bryd ar fenthyg o Lywodraeth Cymru.

Mae gennym nifer o gytundebau lefel gwasanaeth gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i gefnogi cyflwyno ein cyfrifoldebau craidd, a'r gwasanaethau cymorth angenrheidiol.

## 6.2 Llywodraeth Effeithlon ac Effeithiol

***Dangosyddion Perfformiad yn 2010-11 ar gyfer Delio â'r Cyhoedd***

| TARGED | DANGOSYDD | PERFFORMIAD |
|---|---|---|
| Byddwn yn ymateb i ohebiaeth o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl ei chael. | Canran yr ohebiaeth yr ymatebir iddi o fewn 15 diwrnod gwaith. | 84% |
| Byddwn yn sicrhau y telir cyfrifon yn brydlon. Os oes contract yn berthnasol, gwnawn daliadau'n unol â'r amserlen berthnasol. Fel arall byddwn yn talu cyfrifon o fewn 30 diwrnod ar ôl cael anfoneb ddilys. | Canran yr anfonebau a delir o fewn 5 niwrnod.<br><br>Canran yr anfonebau a delir o fewn 10 diwrnod. | 92%<br><br>99% |
| Byddwn yn delio â phob cais am wybodaeth, yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth (DRhG) 2000.<br><br>Fel arfer prosesir ceisiadau o fewn 20 diwrnod ar ôl eu cael neu ar ôl estyniad a ganiatawyd neu byddwn yn anfon ateb dros dro yn esbonio'r rhesymau dros yr oedi ac yn nodi pa bryd yr anfonir ateb llawn. | Canran yr achosion dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yr atebir iddynt o fewn 20 diwrnod gwaith. | 94% |
| Ymateb i'r holl geisiadau am Adolygiadau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn 20 niwrnod gwaith. | Canran yr adolygiadau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a gynhelir ac yr ymatebir iddynt, yn unol â chanllaw Deddf Rhyddid Gwybodaeth o 20 niwrnod gwaith. | 100% |
| Rydym wedi sefydlu trefn gwyno ffurfiol, ynghylch ymddygiad Swyddfa Cymru, a byddwn yn ymchwilio i unrhyw gŵyn ac yn ymateb iddi o fewn 10 diwrnod. | Canran y cwynion a drafodir o fewn 10 diwrnod. | Ni dderbyniwyd dim cwynion ffurfiol |
| Ymateb i'r holl Gwestiynau Seneddol Ysgrifenedig o fewn pum niwrnod ar ôl eu cyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin; atebir yr holl Gwestiynau â Dyddiad Ateb ar y dyddiad a bennwyd. | Canran y cwestiynau a drafodir yn unol â'r targed pum niwrnod.<br><br>Canran y cwestiynau â dyddiad ateb a atebir ar y dyddiad a bennwyd. | 92%<br><br>100% |

### *Diogelu Data a Gwybodaeth*

Mae Swyddfa Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod yr wybodaeth sydd ganddi yn cael ei thrin a'i diogelu'n briodol. Nid yw'r Adran yn delio â llawer iawn o wybodaeth bersonol sensitif ond, serch hynny, rydym yn archwilio ein hasedau data'n rheolaidd ac yn asesu'r risgiau cysylltiedig â'r rheolaethau sydd ar gael.

Yn unol â'r gofynion gorfodol sydd ar bob corff cyhoeddus, rydym wedi sefydlu gweithdrefnau i sicrhau bod yr Adran yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau priodol, ac rydym wedi defnyddio'r pecynnau hyfforddiant a ddarperir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, gan gynnwys, er enghraifft, hyfforddiant diweddaru blynyddol, ar gyfer yr holl staff ar weithdrefnau trin data.

### *Llywodraethu Corfforaethol*

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-11, roedd Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru yn Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol o fewn cyfrifoldeb cyffredinol Swyddog Cyfrifyddu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. O 2011-12 ymlaen, bydd Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru yn Brif Swyddog Cyfrifyddu.

Mae gan Swyddfa Cymru Fwrdd Rheoli sy'n cynnwys y penaethiaid ar bob rhan o fusnes yr Adran. Mae'n cyfarfod yn ffurfiol fel bwrdd corfforaethol bob rhyw ddeufis, ac mae'n gyfrifol am osod arweiniad a chyfeiriad corfforaethol strategol, monitro'r gwaith cyflawni a rheoli perfformiad, goruchwylio stiwardiaeth a rheolaeth ariannol, a rheoli risg. Mae aelod anweithredol y Bwrdd, David Crawley, yn Ddirprwy Gadeirydd y Bwrdd Rheoli ac mae hefyd yn cadeirio Pwyllgor Archwilio'r Adran. Mae'r Bwrdd yn gweithredu yn unol â'r fframwaith amcanion busnes strategol y cytunwyd arno gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

### *Y Pwyllgor Archwilio*

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith yn ystod 2010-11. Mae ganddo 2 aelod anweithredol: David Crawley (Cadeirydd) ac Ian Summers. Mae ei raglen waith a'i gyfarfodydd yn adlewyrchu'r gwaith sy'n gysylltiedig â pharatoi cyfrifon, rhagamcanion a datganiadau sicrwydd yn flynyddol, a rhaglen archwilio mewnol yr Adran. Mae'r pwyllgor yn craffu ar y prosesau rheoli risg ar gyfer y Swyddfa ac yn cynghori'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol/Prif Swyddog Cyfrifyddu ynghylch y camau priodol i'w cymryd. Mae'r Pwyllgor yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Rheoli drwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, sy'n aelod anweithredol o'r Bwrdd.

Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno ei adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor Archwilio i'r Bwrdd Rheoli ym mis Gorffennaf 2011.

### *Defnyddio Adnoddau’n effeithlon*

Mae darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon yn un o elfennau canolog agenda'r Llywodraeth glymblaid ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau y gweithredir yn effeithiol ac yn effeithlon yn ein holl feysydd gweithgaredd. Rydym yn gyfrifol am drosglwyddo Bloc Cymru, ond nid am ei ddyrannu yng Nghymru sy’n fater i Lywodraeth Cymru, sy’n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol, gyda chymorth Archwilydd Cyffredinol Cymru.

### *Caffael, ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd*

Lle mae Swyddfa Cymru yn defnyddio gwasanaethau a gyflenwir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder neu dan gontract iddi, mae ymrwymiadau’r Llywodraeth glymblaid ar effeithiau amgylcheddol a chynaliadwyedd yn cael eu bodloni o fewn y fframwaith ehangach hwnnw. Rydym wedi parhau i chwilio am ffyrdd o leihau rhagor ar ddefnydd y Swyddfa o ynni a dŵr. Rydym unwaith eto wedi gwrthbwyso ein hallyriadau $CO_2$ o deithio drwy ddefnyddio cwmni masnachol sy’n ariannu prosiectau gwrthbwyso carbon.

## 6.3 Ein swyddfa

### *Adeiladau swyddfeydd*

Mae prif adeilad Swyddfa Cymru, Tŷ Gwydyr ar Whitehall, yn is-gangen bwysig i Gymru yng nghanol Llundain. Tŷ tref Sioraidd oedd hwn yn wreiddiol, ac mae’n adeilad rhestredig Gradd II*. Cawn wybod am y gwaith gofynnol i’w gynnal, ac am ein rhwymedigaethau cyfreithlon fel deiliaid adeilad hanesyddol, gan adran Rheoli Cyfleusterau’r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Asiantau Rheoli adeiladu a benodir sy'n rhoi adroddiadau rheolaidd ar yr adeilad i ni er mwyn bodloni Rheoliadau Adeiladu statudol. Mewn ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiadau hynny, mae gennym raglen barhaus o waith cynnal a chadw yn Nhŷ Gwydyr, i adlewyrchu ei statws arbennig ac i reoli ei anghenion. Hefyd, mae Swyddfa Cymru wedi cymryd ystafelloedd ar brydles mewn adeilad ym Mae Caerdydd.

Mae’r ddwy swyddfa’n bodloni gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.


### *Iechyd a Diogelwch*

Mae gan Swyddfa Cymru ei Phwyllgor Iechyd a Diogelwch lleol ei hun sy’n adrodd yn rheolaidd i’n Bwrdd Rheoli. Mae gennym Gynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch hefyd sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n gyson.

## 6.4 Ein staff

### *Materion Staffio*


Roedd gan Swyddfa Cymru swyddi i 64 aelod staff ar gyfer cyfnod 2010-11. Dros y flwyddyn cawsom lefel resymol o drosiant o ryw 23%, gyda lefelau staffio ar ryw 92% gydol y flwyddyn ariannol fel y gellir gweld yn y siart isod:




Mae cyfanswm nifer y staff mewn swydd, ar 31 Mawrth 2001, o 56 (54.24 FTE) yn cynnwys 1 aelod staff (asiantaeth) dros dro a 19 aelod staff ar fenthyg o Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae 39% o'n staff wedi'u lleoli yng Nghaerdydd a 61% yn Llundain.

### *Graddau*

Dangosir dadansoddiad o'r staff yn ôl graddau'r gwasanaethau sifil yn y siart isod:



### *Recriwtio*

Mae Swyddfa Cymru wedi cynnal nifer o ymarferion recriwtio mewnol (hynny yw, mewnol i'r Gwasanaeth Sifil) yn ystod 2010-11. Nid ydym wedi cynnal dim ymarferion recriwtio allanol.

### *Ymddiswyddiadau ac Ymddeoliadau*

Dros y flwyddyn ddiwethaf, ymysg y rhesymau dros staff yn gadael Swyddfa Cymru oedd ymddeol; rhai contractau staff asiantaeth yn cael eu terfynu; ymddiswyddo; trosglwyddo ar draws i Adran arall yn y Llywodraeth; ac un contract cyfnod penodol yn dod i ben. Daeth cyfnod benthyg saith aelod staff o Lywodraeth Cymru i ben a dychwelodd y staff i'w sefydliad eu hunain.

### *Uwch Wasanaeth Sifil*

Fel ar 31 Mawrth 2011 y mae 4 swydd uwch wasanaeth sifil barhaol yn Swyddfa Cymru.

### *Cyfle Cyfartal*

| Staff mewn swyddi ar lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil | Mawrth 2010 | Mawrth 2011 |
|---|---|---|
| Canran menywod | 50% | 25% |
| Canran menywod ym Mand Cyflog 2 ac uwch | 100% | 100% |
| Canran Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) | 0% | 0% |
| Canran y staff wedi'u Cofrestru'n Anabl | 0% | 0% |

| Staff is law lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil | Mawrth 2010 | Mawrth 2011 |
|---|---|---|
| Canran menywod | 63% | 53% |
| Canran Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) | 5% | 5% |
| Canran y staff wedi'u Cofrestru'n Anabl | 11% | 11% |

### *Ymrwymiadau Staff o ran yr Iaith Gymraeg*

Mae Swyddfa Cymru wedi ymrwymo i annog staff i ddysgu Cymraeg ac rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hyfforddiant iaith i alluogi staff i weithio'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn parhau i dalu costau hyfforddiant yn ogystal â chynnig amser cyswllt a seibiant astudio gyda thâl i aelodau staff sy'n ymgymryd â'r cyfryw hyfforddiant. Ar hyn o bryd mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu yng Nghaerdydd a Llundain, ac mae oddeutu 15 aelod staff (24%) wedi cyfrannu'n fewnol at hyfforddiant lefel sylfaenol. Mae un aelod staff yn ymgymryd â hyfforddiant ar lefel ganolraddol yn allanol.

Cynhelir archwiliad o sgiliau staff Swyddfa Cymru bob blwyddyn ac mae canlyniadau'r archwiliad hwn yn sylfaen ar gyfer ein rhaglen hyfforddi a chynllunio'r gweithlu. Ar hyn o bryd mae gennym bum aelod staff (8%) sy'n ystyried eu hunain yn ddwyieithog.

### *Rheoli Perfformiad*

Mae Swyddfa Cymru wedi ymrwymo i systemau gwerthuso ffurfiol ac yn unol â hyn mae'n rhaid cael cofnod 100% o staff y mae amcanion wedi'u gosod ar eu cyfer ac o leiaf 2 adolygiad y flwyddyn. Mae camau gweithredu yn yr arfaeth i gryfhau'r broses ymhellach yn 2011-12.

### *Arolwg Ymgysylltu â Staff*

Mae Swyddfa Cymru yn cyfrannu at yr arolwg blynyddol ar draws y gwasanaeth sifil. Yn 2010 cododd ein cyfradd ymgysylltu â staff yn gyffredinol i 60%, (dwywaith cyfradd 2 flynedd yn ôl). Mae'r lefel ymgysylltu hon yn rhoi Swyddfa Cymru ymysg y 25 uned sy'n perfformio orau yng ngwasanaeth sifil y DU ac yn ein gosod ni 4% yn uwch na chanolrif y gwasanaeth sifil.

Mae cynllun gweithredu wedi'i baratoi'n barod mewn ymgynghoriad â staff i gyflwyno rhagor o welliannau yn sgil canfyddiadau'r arolwg.

### *Dysgu a Datblygu*

Cytunodd y Bwrdd Rheoli ar strategaeth Dysgu a Datblygu yn 2010. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar wella lefelau dadansoddi sgiliau, mwy o hyfforddiant a datblygu'n cael ei ddarparu'n fewnol a gwerthuso gwell ymysg staff. Ar hyn o bryd mae'n cael ei diweddaru ymhellach i adlewyrchu nodau cyfredol a blaenoriaethau Gweinidogol.

## 6.5 Ariannu a Chyllid

Trysorlys EM sy'n dal yn gyfrifol am bolisi cyllid, polisi macroeconomaidd a dyrannu gwariant cyhoeddus ledled y Deyrnas Unedig, a pharheir i wneud penderfyniadau am gyllideb Llywodraeth Cymru o fewn y fframwaith ar gyfer rheoli gwariant cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig. Nodir y berthynas ariannol yn y *Statement of Funding Policy,* a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010.

Mae arian y Llywodraeth ar gyfer cyllideb y Cynulliad yn cael ei bennu fel arfer o fewn adolygiadau o wariant. Pennir y cysylltiad fel arfer drwy fformiwla Barnett sy'n seiliedig ar boblogaeth. Bydd y Senedd yn pleidleisio dros roi'r ddarpariaeth angenrheidiol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud taliadau i'r Cynulliad o'r arian a ddarparwyd gan y Senedd yn y symiau hynny y caiff hi eu pennu, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Telir am gostau Swyddfa Cymru o'r arian a ddarperir gan y Senedd ar ffurf 'Grant Bloc Cymru'.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud ei phenderfyniadau gwario ei hun ar raglenni datganoledig, yn amodol ar gymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### *Gwariant gan Swyddfa Cymru*

Mae'r gwariant gan Swyddfa Cymru yn rhan o Grant Bloc Cymru. Ar wahân i'r grant mae'n gyfrifol am ei drosglwyddo i Lywodraeth y Cynulliad i wario fel y mynna hi, mae gwariant yr Adran ei hun yn cynnwys ein costau rhedeg ein hunain; treuliau'r Arglwyddi Rhaglaw yng Nghymru; ac eitemau cysylltiedig heb fod yn arian parod.

### *Newidiadau yn Nherfyn Gwariant Adrannol Cymru*

Mae Atodiad B yn cysoni Terfyn Gwariant Adrannol (TGA - DEL) presennol Cymru â'r llinell sylfaen o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn 2007.

### *Cyfanswm y Gwariant Cyhoeddus y gellir ei bennu yng Nghymru*

Cyfanswm gwariant cyhoeddus 2009-10 y gellir ei bennu ei fod wedi'i wario er budd Cymru oedd £28.780 biliwn, sy'n cyfateb i £9,597 y pen neu tua 9 y cant yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU. I gael rhagor o wybodaeth gweler *Public Expenditure Statistical Analyses (PESA) 2010.*

### *Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan*

Mae Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yng Nghyfrifon y Llywodraeth Gyfan, dan arweiniad Trysorlys EM.

### *Cyllideb Llywodraeth Cymru*

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi manylion sut mae wedi dyrannu ei chyllideb ar gyfer 2011-12; ceir y rhain yng *Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2011-2012*.

Ceir rhagor o fanylion ar ei gwefan http://www.cymru.gov.uk/

# A Ymweliadau a Chyfarfodydd y Gweinidogion

| Mai 2010 |
|---|
| Ymddiriedolaeth Fferm Amelia |
| Ailddatblygu Bae Caerdydd |
| Technium Optic |
| Undeb Credyd Arfordir Clwyd |
| Cymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewin |
| Pencadlys Brigâd (160) Cymru Aberhonddu |
| Cymru Yfory |
| Cydffederasiwn Diwydiant Prydain - CBI Cymru |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |

| Mehefin 2010 |
|---|
| Confensiwn Cymru Gyfan |
| Cymdeithas y Gyfraith Cymru |
| Bwrdd yr Iaith Gymraeg |
| Prifysgol Abertawe |
| CORUS |
| N Power |
| Cyngres yr Undebau Llafur |
| Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai |
| Cydffederasiwn Diwydiant Prydain - CBI Cymru |
| EADS Defence and Security |
| G24 Innovations |
| Ymddiriedolaeth y BBC |
| Swyddfa Ynadon Caernarfon |

| Gorffennaf 2010 |
|---|
| German Industry UK |
| Cymru yn Llundain |
| Siambr Fasnach Gorllewin Swydd Gaer a Gogledd Cymru |
| ITV Cymru |
| Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru |
| General Dynamics |
| Cymdeithas y Diwydiant Chwaraeon Moduro |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Addysg Uwch Cymru |
| Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion |
| ARUP |
| Prif Gwnstabliaid Cymru |
| Cymdeithas y Tirfeddianwyr |
| Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr |
| Undeb Amaethwyr Cymru |
| Y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau |
| Awdurdodau Heddlu Cymru |
| Network Rail |
| Dŵr Cymru |

| Awst 2010 |
|---|
| BBC Cymru |
| Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau |
| S4C a Rondo Media |
| Magnox a'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear a Pwer Niwclear Horizon |
| Amgueddfa Lechi Cymru |
| Daily Post |
| Oriel Mostyn Gallery |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Phêl-droed yn y Gymuned y Rhyl |
| Sharp Electronics Ltd |
| Tree Top Adventure |
| Heddlu Gogledd Cymru |
| Cymdeithas y Tirfeddianwyr |
| Grŵp y Post Brenhinol |
| Undeb Amaethwyr Cymru |
| Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr |
| Shelter Cymru |
| Technium Sir Benfro |
| Cyngor Sir Penfro |
| Mansel Davies, Cludwr Masnachol |
| Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig |
| Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Coleg Harlech |
| Prifysgol Bangor |
| CAST Technium |
| Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru |
| Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol |
| Prifysgol Glyndŵr |
| Ffederasiwn Diwydiannau Paneli Coed |
| Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Comisiwn Ffiniau Cymru |
| Cyngres Undebau Llafur Cymru |

| Medi 2010 |
|---|
| S4C |
| Metrix |
| Ofgem |
| Convanta |
| Ysgol Gymraeg Llundain |
| Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig |
| Yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear |
| Y Grid Cenedlaethol |
| Prifysgol Glyndŵr |
| Canolfan Sgiliau Blaenau Gwent |

| Hydref 2010 |
|---|
| Aren Cymru |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| Comisiynydd Pobl Hŷn |
| Cymru yn Llundain |
| Price WaterHouse Cooper |
| CBI Cymru |
| British Telecom |
| Swift Invent Ltd |
| Ynni Gwynt Cymru |

| Hydref 2010 |
| --- |
| Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth |
| S4C |
| Arup |
| Ymddiriedolaeth y BBC |
| Renewable UK |
| Western Mail |
| Y Post Brenhinol |
| True Wales |
| Teledwyr Annibynnol Cymru |
| German Industry UK |

| Tachwedd 2010 |
| --- |
| EADS |
| NASUWT |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| Prifysgol Caerdydd |
| Victory Outreach UK |
| Wiltan |
| Comisiynydd Pobl Hŷn |
| Toyota |
| Siambr Fasnach Cymru a Bangladesh |
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| Heddlu Dyfed-Powys |
| Cymdeithas yr Iaith |
| Llais Defnyddwyr Cymru |
| Cymru yn Llundain |
| CBI |
| BBC |
| S4C |
| Heddlu Gogledd Cymru |
| Kids Task Force |
| Toyota |

| Rhagfyr 2010 |
| --- |
| BT |
| Assura Medical Ltd |
| Uned Cefnogaeth Bersonol |
| Ymddiriedolaeth y BBC |
| 737 Challenge |

| Ionawr 2011 |
| --- |
| Y Post Brenhinol |
| Prifysgol Cymru/ Sefydliad Technoleg Massachusetts |
| Axeon |
| BMA Cymru |
| Grŵp Bancio Lloyds |
| Toyota UK |
| Coleg Glannau Dyfrdwy |
| Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |
| Undeb Amaethwyr Cymru |
| First Great Western |
| Cymdeithas Genedlaethol y Swyddogion Prawf |
| Tŷ Hafan |
| Cinio Blynyddol y Cymrodyr a Marchnatwyr Siartredig |
| Sefydliad Cymunedol Cymru |

| Ionawr 2011 |
| --- |
| RWE Power Renewables |
| Moduro Cymru |
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru |

| Chwefror 2011 |
| --- |
| General Dynamics |
| Ffederasiwn y Busnesau Bach |
| Banc Lloegr |
| Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| JCB |
| Sefydliad Cymunedol Cymru |
| Prifysgol Caerdydd |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion |
| Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig |
| Race Online 2012 |
| S4C |
| Airbus |
| Prifysgol Aberystwyth |
| Undeb Amaethwyr Cymru |
| Prifysgol Glyndŵr |
| RMI Petrol Association |
| Prifysgol Bangor |
| Porthladd Caergybi |
| Alwminiwm Môn |
| Dawnus |
| Celfyddydau Gwirfoddol Cymru |
| Undeb Credyd |
| Y Grid Cenedlaethol |

| Mawrth 2011 |
| --- |
| BBC Cymru Wales |
| Canolfan Mileniwm Cymru |
| Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau |
| Dragon LNG |
| South Hook LNG |
| Murco |
| RWE |
| Soroptimyddion Rhyngwladol Bae Colwyn a'r Fro |
| Chevron |
| SEM Logistics |
| Sefydliad y Cyfarwyddwyr |
| CBI Cymru |
| Prifysgol Caerdydd |
| General Dynamics |
| Ford |
| Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |
| Ffederasiwn y Busnesau Bach |
| Fforwm Busnes Preifat |
| Admiral Insurance |
| TATA |
| LNG |
| GE Healthcare |
| Airbus |
| JOJO Maman Bebe |

| Mawrth 2011 |
|---|
| Victory Outreach |
| GE Aircraft Engine Services |
| Calsonic Kansei Europe |
| Dow Corning |
| Orion Electric |
| Rowecord Holdings Ltd |
| Rockwool Ltd |
| Dawnus Holdings Ltd |
| Castell Howell Food Ltd |
| FG Hawkes (Western) Ltd |
| Ledwood Mechanical Engineering Ltd |
| Cuddy Demolition Ltd |
| Wall Colmonoy Ltd |
| Rhyal Engineering Ltd |
| Roland (UK) Ltd |
| Sei Interconnect Products (Europe) Ltd |
| Glass Systems Ltd |
| Pure Wafer Plc |
| Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru |
| Fforwm Moduro Cymru |
| AB Glass |
| Spear Group Holdings |
| BIO - Tech |
| Airborne Systems |
| Fulleon |
| WIT Systems |
| Newport and Gwent Chamber of Commerce Enterprise and Industry Ltd |
| Siambr Fasnach De Cymru |
| RWE Npower |
| Prifysgol Caerdydd |
| Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd |
| Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau |

Nid yw'n cynnwys cyfarfodydd gyda chyrff y Llywodraeth megis Asiantaethau ac Adrannau eraill y Llywodraeth, cyrff cyhoeddus anadrannol, adolygwyr y Llywodraeth, a chynrychiolwyr llywodraethau datganoledig neu dramor.

# B Tablau Ariannol

## Tabl 1: Newidiadau yn Nherfyn Gwariant Adrannol (TGA) Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2009-10 a 2014-15 ers Dadansoddiadau Ystadegol o Wariant Cyhoeddus (PESA) 2010

| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m Alldro | £m Alldro dros dro | £m Cynllluniau | £m Cynllluniau | £m Cynllluniau | £m Cynllluniau |
| **Sefyllfa adeg cyhoeddi PESA 2010 (Tabl 1.8) heb ddibrisiant a lleihad (*impairments*)** | 15,131 | 15,178 | | | | |
| Dibrisiant a lleihad | 403 | 354 | | | | |
| ***Is-gyfanswm*** | **15,534** | **15,532** | | | | |
| Setliad Adolygiad o Wariant 2010 | 0.0 | 0.0 | 14,967.2 | 15,000.9 | 15,029.3 | 15,133.4 |
| Hawliad wrth gefn: Setliad AoW 2010 cywir | 0.0 | 0.0 | 56.8 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Addasiadau i'r Alldro | -77.7 | -112.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn | 0.0 | 227.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Polisi Gwario: | | | | | | |
| Cyfran LlC o'r toriadau gwerth £6 biliwn | 0.0 | -162.5 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Rhyddhad ardrethi | 0.0 | -6.2 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Benthyciadau i Fyfyrwyr | 0.0 | 50.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Cyllideb 2011 - Parthau Menter | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.8 | 2.0 | 3.3 |
| Cyllideb 2011 – First Buy | 0.0 | 0.0 | 12.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Cyllideb 2011 – Colegau Technegol Prifysgolion | 0.0 | 0.0 | 7.3 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Cyllideb 2011 - Prentisiaethau | 0.0 | 0.0 | 4.9 | 2.9 | 2.2 | 0.2 |
| Trosglwyddiadau rhyngadrannol | 13.9 | 12.7 | 18.6 | 17.4 | 16.8 | 16.0 |
| Newidiadau mewn dosbarthiad | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| ***Is-gyfanswm*** | ***-64*** | ***9*** | ***15,067*** | ***15,022*** | ***15,050*** | ***15,153*** |
| **TGA (DEL) Cyfalaf ynghyd â TGA Adnoddau** | 15,471 | 15,541 | 15,067 | 15,022 | 15,050 | 15,153 |
| Llai dibrisiant a lleihad | 415 | 270 | 378 | 405 | 389 | 386 |
| **Sefyllfa adeg cyhoeddi PESA 2011 (Tabl 1.8) heb ddibrisiant a lleihad (*impairments*)** | **15,055** | **15,271** | **14,689** | **14,617** | **14,662** | **14,767** |

*(1) Efallai nad yw'r cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigurau*

## Tabl 2: Terfyn Gwariant Adrannol ( TGA) – Cymru (1)

| | 2005-06 alldro £'000 | 2006-07 alldro £'000 | 2007-08 alldro £'000 | 2008-09 alldro £'000 | 2009-10 alldro £'000 | 2010-11 alldro dros dro £'000 | 2011-12 cynlluniau £'000 | 2012-13 cynlluniau £'000 | 2013-14 cynlluniau £'000 | 2014-15 cynlluniau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adnodd Swyddfa Cymru** | | | | | | | | | | |
| Costau Gweinyddu Swyddfa Cymru | 4,112 | 4,219 | 4,886 | 4,983 | 5,609 | 5,074 | 5,957 | 5,992 | 6,072 | 4,971 |
| Swyddfa Cymru – arall[3] | 0 | 29 | 37 | 23 | 0 | 43 | 60 | 60 | 60 | 60 |
| **Adnodd**[3] | 4,112 | 4,248 | 4,923 | 5,006 | 5,609 | 5,117 | 6,017 | 6,052 | 6,132 | 5,031 |
| llai dibrisiant a lleihad (*impairments*) | -129 | -48 | -48 | -236 | -61 | -227 | -70 | -70 | -70 | -70 |
| **Adnodd Swyddfa Cymru**[4] | 3,983 | 4,200 | 4,875 | 4,770 | 5,548 | 4,890 | 5,947 | 5,982 | 6,062 | 4,961 |
| **Cyfalaf Swyddfa Cymru** | | | | | | | | | | |
| Swyddfa Cymru | 127 | 33 | 145 | 96 | 0 | 130 | 724 | 724 | 724 | 25 |
| **TGA Swyddfa Cymru**[4] [5] | **4,110** | **4,233** | **5,020** | **4,866** | **5,548** | **5,020** | **6,671** | **6,706** | **6,786** | **4,986** |
| Adnodd Llywodraeth Cymru | 10,905,941 | 11,563,725 | 12,253,358 | 12,816,248 | 13,540,477 | 13,828,664 | 13,779,923 | 13,834,049 | 13,986,039 | 14,046,862 |
| Cyfalaf Llywodraeth Cymru | 1,208,350 | 1,318,108 | 1,461,436 | 1,626,521 | 1,929,860 | 1,754,767 | 1,286,947 | 1,187,907 | 1,064,300 | 1,106,013 |
| **TGA Llywodraeth Cymru**[3] | **12,114,291** | **12,881,833** | **13,714,794** | **14,442,769** | **15,470,337** | **15,583,431** | **15,066,870** | **15,021,956** | **15,050,339** | **15,152,875** |
| **Cyfanswm Bloc Cymru** | **12,118,401** | **12,886,066** | **13,719,814** | **14,447,635** | **15,475,885** | **15,588,451** | **15,073,541** | **15,028,662** | **15,057,125** | **15,157,861** |

*(1) Efallai nad yw'r cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigurau*

*(2) Mae'n cynnwys Newidiadau Cyllidebol oherwydd CLOS*

*(3) Gan gynnwys dibrisiant a lleihad*

*(4) Adnodd + cyfalaf – dibrisiant a lleihad*

*(5) Yn unol â chonfensiwn, mynegir cyllidebau Terfynau Gwariant Adrannol fel adnoddau a chyfalaf llai dibrisiant a lleihad. Felly ni fydd y rhifau adnodd a chyfalaf yn y tabl hwn yn crynhoi'n union i'r Terfyn Gwariant Adrannol: dibrisiad a lleihad yw'r gwahaniaeth.*

## Tabl 3: CYSONI'R GRANT SY'N DALADWY I GRONFA GYFUNOL CYMRU 2009-10

| | Darpariaeth Wreiddiol £'000 | Darpariaet h Derfynol £'000 | Alldro Terfynol £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel TGA (*DEL*) [(1) (2)] | 15,278,348 | 15,841,843 | 15,470,337 |
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol (*AME*) | 647,063 | 688,050 | 632,119 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **15,925,411** | **16,529,893** | **16,102,456** |
| Llai: | | | |
| *Gwariant Nas Dyfarnwyd (non-voted):* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd ALl | 163,396 | 163,396 | 162,116 |
| Arall Nas Dyfarnwyd | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| Adnodd Anariannol | 541,313 | 768,691 | 635,552 |
| AME Annariannol | 553,378 | 563,750 | 507,527 |
| Eitemau Anariannol eraill | | 97,000 | 96,103 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR (TME) NAS DYFARNWYD** | **1,264,165** | **1,598,915** | **1,407,376** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR (*TME*) A DDYFARNWYD** | **14,661,246** | **14,930,978** | **14,695,080** |
| Derbyniadau a ddyfarnwyd | | | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | -965,683 | -939,286 | -939,286 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | -932,200 | -905,400 | -905,400 |
| **Cyfanswm** | **-1,897,883** | **-1,844,686** | **-1,844,686** |
| Ynghyd â: | | | |
| Trosglwyddo Stoc Tai - Ceredigion a Gwynedd | 0 | 24,700 | 10,390 |
| Ad-daliad yr UE | 13,581 | 13,581 | 12,832 |
| Cyfraniadau'r Trysorlys Tai | 174 | 174 | 159 |
| **CYFANSWM Y GRANT I GRONFA GYFUNOL CYMRU** | **12,777,118** | **13,124,747** | **12,873,775** |

*(1) TGA Adnoddau a chyfalaf yn cynnwys dibrisiant.*
*(2) Nid yw'n cynnwys Newidiadau Cyllidebol yn sgil gweithredu Llwybr Clir (Clear Line of Sight)*

## Tabl 4: CYSONI'R GRANT SY'N DALADWY I GRONFA GYFUNOL CYMRU 2010-11

| | Darpariaeth Wreiddiol £'000 | Darpariaeth Derfynol £'000 | Alldro Terfynol £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel TGA (*DEL*) [1] [2] | 15,530,824 | 15,639,389 | 15,527,531 [3] |
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol (*AME*) | 693,635 | 370,722 | 261,899 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **16,224,459** | **16,010,111** | **15,789,430** |
| Llai: | | | |
| *Gwariant Nas Dyfarnwyd (non-voted):* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd ALl | 163,396 | 163,396 | 163,396 |
| Arall Nas Dyfarnwyd | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| Adnodd Anariannol | 412,257 | 493,257 | 407,253 |
| AME Anariannol | 555,560 | 231,735 | 133,373 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR (TME) NAS DYFARNWYD** | **1,137,291** | **894,466** | **710,100** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR (*TME*) A DDYFARNWYD** | **15,087,168** | **15,115,645** | **15,079,330** |
| Derbyniadau a ddyfarnwyd: | | | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | -953,184 | -894,377 | -932,699 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | -881,810 | -867,000 | -896,417 |
| **Cyfanswm** | **-1,834,994** | **-1,761,377** | **-1,829,116** |
| Ynghyd â: | | | |
| Trosglwyddo Stoc Tai – Blaenau Gwent | 45,000 | 43,272 | 97,166 |
| Trosglwyddo Stoc Tai – Gwynedd | 17,329 | 17,329 | |
| Trosglwyddo Stoc Tai – Castell-nedd/Port Talbot | | 40,700 | |
| **CYFANSWM Y GRANT I GRONFA GYFUNOL CYMRU** | **13,314,503** | **13,455,569** | **13,347,380** |

*(1) TGA Adnoddau a chyfalaf yn cynnwys dibrisiant.*
*(2) Nid yw'n cynnwys Newidiadau Cyllidebol yn sgil gweithredu Llwybr Clir (Clear Line of Sight)*
*(3) Hawliad wrth gefn o £50m ychwanegol*

## TABL 5: CYSONI'R GRANT SY'N DALADWY I GRONFA GYFUNOL CYMRU 2011-12

| | Darpariaeth Wreiddiol £'000 |
|---|---|
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel TGA (*DEL*) [1] | 15,066,870 |
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol (*AME*) | 318,789 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | **15,385,659** |
| **Llai:** | |
| *Gwariant Nas Dyfarnwyd (non-voted):* | |
| Cymeradwyaethau Credyd ALI | 120,211 |
| Arall Nas Dyfarnwyd | 6,078 |
| Adnoddau wedi'u Clustnodi Anariannol | 431,149 |
| AME Anariannol | 164,726 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR (TME) NAS DYFARNWYD** | **722,164** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR (*TME*) A DDYFARNWYD** | **14,663,495** |
| **Derbyniadau a ddyfarnwyd** | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | -886,953 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | -867,000 |
| **Cyfanswm** | **-1,753,953** |
| **Addasiadau Amseru** | |
| Cynnydd / Gostyngiad o ran Dyledwyr a Chredydwyr | *1,275* |
| Defnyddio darpariaethau | 50 |
| **CYFANSWM Y GRANT I GRONFA GYFUNOL CYMRU** | **12,910,867** |

*(1) TGA Adnoddau a chyfalaf yn cynnwys dibrisiant.*

*(2) Mae'n cynnwys Newidiadau Cyllidebol yn sgil gweithredu Llwybr Clir (Clear Line of Sight)*